



COR MERCHED



ALIS JONES



CALAN GAEAF



CODIARIAN

ECO'r Wyddfa

Rhif: 394
Rhagfyr 2011
Pris: 50c

Plant Yr Ardal Yn Casglu



Cafodd y plant gyfle i ddod i'r Ysgol wedi gwisgo mewn gwisg ffansi dydd Gwener, 18 Tachwedd. Trosglwyddwyd £85 i gronfa Plant Mewn Angen. Diolch i bawb am eu cyfraniadau.



Plant meithrin Llanrug yn eu dillad nos ar ddydd plant mewn angen. Cododd yr ysgol £302.

Eisteddfodau'r fro

Bydd canlyniadau a chynnyrch buddugol nifer o eisteddfodau'r fro yn cael eu cynnwys yn rhifyn Nadolig yr Eco.

O Dywyllwch i Oleuni



Gareth Roberts

Colled! Dyna'n sicr a gafodd pawb na ddaeth i'r Caban ar noson bwrw i'r byd lyfr Gareth Roberts, Y Sêr yn eu Tynerwch. A pheidiwch â chwyno na chawsoch wahoddiad! Estynnwyd croeso i bawb ar dudalen 3 y rhifyn diwethaf o'r Eco.

Ond roedd cefnogwyr selog wedi ymgynnull yn y Caban, a chafwyd noson fythgofiadwy wrth i Gareth arwain y gynulleidfa ar hyd llwybrau dyrys tynnu lluniau yn nhrymder nos.

Cawsom ei gwmni gydag un o dylluanod Williams Parry yn Llwyncoed, gyda mintai o lygod mawr ar Ynys Lawd, a dyfrgi chwareus a chyfeillgar ger Rhaeadr Ogwen. Ond nid llyfr am fywyd gwyllt yn y nos mo hwn, ond detholiad o luniau synhwyrus sy'n cyffwrdd â'r teimladau. Ac i gyd-fynd â'r lluniau dewiswyd cerddi addas gan Myrddin ap Dafydd sy'n ychwanegu at naws y lluniau.

Daw'r testun o linell o englyn gan R. Williams Parry (Dysgedigion), a'r hyn a gawn yn y gyfrol yw taith yn nhrymder nos; taith y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn gyndyn o'i dechrau – oherwydd y tywyllwch. Ond wrth symud o lun i lun ac o gerdd i gerdd, mae'r tywyllwch yn goleuo: y goleuni hwnnw sydd i'w gael o fachlud haul, o'r lleuad, o'r sêr ac o amryw ffenomenau naturiol eraill nad yw pobol y dydd yn ymwybodol ohonynt. Prynwch y llyfr: ewch am dro i'r tywyllwch er mwyn gwerthfawrogi'r goleuni.

ECO'r Wyddfa

RHIF 394 RHAGFYR 2011

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911
Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
alwenaowen@gmail.com
neu
Tir Iarll, Llandwrog LL54 5TE
neu:
ecorwyddfa@gmail.com**

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115
richard.llwyd@yahoo.co.uk

FFOTOGRAFFWR
Gwynhaf Hughes, Glasgoed, Llanrug
(01286) 677263
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Swn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog,
14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog,
14 Afon Rhos, Llanrug (01286) 674839

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLLEN: Nia Gruffudd (872133)
BETHEL: Geraint Elis. Cilgeran
(01248) 670726
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams. Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Clive James. Hafan. Bryn
Gwna (677438)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen.
Bodafon. Ceunant (650799)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands.
Glanrafon (872275)
DINORWIG: Marian Jones. Minallt.
7 Bro Elidir. Dinorwig (870292)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts. Swn-y-Gwynt (870740)
LLANRUG: Eryl Roberts.
3 Bryn Moelyn (675384)
NANT PERIS: Llinos Jones.
6 Nant Ffynnon (871820)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans.
Sycharth (872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry.
Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts.
Pantafon. Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS SUL, 11 RHAGFYR
Os gwelwch yn dda
Dyddiad Gosod
NOS IAU, 15 RHAGFYR
Sefydliad Coffa Llanrug
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
DYDD IAU, 22 RHAGFYR

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2011

Rhifyn	Copi	Gosod	Plygu	Ble
Nadolig/Ionawr	11 Rhagfyr	15 Rhagfyr	22 Rhagfyr	Llanrug (y wasg yn plygu)
Chwefror	15 Ionawr	19 Ionawr	26 Ionawr	Waunfawr
Mawrth	19 Chwefror	23 Chwefror	1 Mawrth	Llanrug

LLYTHYRAU

*Ty'n Twll
Nantperis, Caernarfon
Ffon 871250
Ffacs 872311
Symudol 07831.426649
deitomos@btopenworld.com*
Annwyl Gyfaill,
Tybed a gaf i fanteisio ar
dudalen llythyrau Eco'r Wyddfa
unwaith eto i dynnu sylw at –
faw cŵn - problem sydd wedi
gwaethygu yn yr ardal yma,
yn arbennig yn Llanberis yn
ddiweddar.

Yn y misoedd diweddar
cafwyd adroddiadau yn y
Cyngor Cymuned am faw
cŵn yn difwyno palmentydd
a llecynnau gwyrdd y pentref,
gan gynnwys caeau chwarae.
Gofynnwyd i mi ar ran y
Cyngor ofyn yn garedig i'r sawl
sy'n berchen ci, neu'n cerdded
ci i rywun arall, i fod yn fwy
cyfrifol ynglŷn â lle mae'r ci
yn codi ei goes a gwneud ei
fusnes, ac i glirio'r baw ar eu
hól. Prin bod angen dweud mai
peth anghynnes yw baw ci, ac
mae hefyd yn beryglus i bobl
a phlant yn arbennig, ac yn
annymunol iawn i breswylwyr
ac ymwelwyr y pentref.
Mae pum mlynedd ers i mi
anfon gair fel hyn o'r blaen at
yr Eco ynglŷn â'r broblem hon.
Hoffwn feddwl i bethau wella
ar ôl hynny, yn sicr cafwyd llai
o gwynion. Tybed nad gormod
ydi gofyn eto am fwy o ofal a
gofyn hefyd am gadw cŵn ar
dennyn yn hytrach na'u gadael
i grwydro'n rhydd fel sy'n
digwydd yn achos sawl un.
Yn ystod yr wythnosau
diwethaf mae Cyngor
Cymuned Llanberis wedi
bod yn gweithio'n agos
gyda swyddogion o Gyngor
Gwynedd ac yn sgil hynny

mae nifer yr ymweliadau
gan y Tîm Gorfodaeth Stryd
wedi cynyddu. Mae nhw
wedi dechrau ymchwilio
i ddarganfod pwy ydi
perchnogion y cŵn, gyda'r
bwriad o erlyn a dirwyo unrhyw
un sy'n caniatáu i'w ci faeddu
mewn mannau cyhoeddus.
Fel rhan o raglen Menter
Pentrefi Taclus mae Cyngor
Gwynedd wedi gosod dau
ddwsin o finiau stryd newydd
yn Llanberis ac yn fuan
hefyd bydd biniau bagiau
baw cŵn newydd yn cael
eu lleoli yn y pentref yn lle'r
rhai a ddiflannodd yn ystod y
flwyddyn neu ddwy ddiwethaf.
Yn ogystal mae Cyngor
Gwynedd yn bwriadu rhannu
pecynnau clirio baw cŵn
(poop scoop kits) trwy law'r
cynghorwyr Cymuned a
dywed Cyngor Gwynedd
hefyd nad oes gwrthwynebiad
i berchnogion cŵn roi'r bagiau,
cyn belled a'u bod wedi eu
clymu, yn y biniau stryd.
Rydym yn freintiedig ryfeddol
o gael byw mewn lle braf a
hardd, does bosib na allwn ni
i gyd wneud ein rhan i gadw'r
ardal yn dwt, ac i feddwl am
ein cymdogion yn lle bod yn
hunanol.
Eithriadau ydi'r rhai sy'n
camweddu a chamymddwyn,
ond mae'r nifer fechan
anghyfrifol yma yn gwneud
bywyd llawer o bobl eraill yn
ddiflas a phoenus. Beth felly
am gadw ein strydoedd a'n
cymunedau yn Llanberis a
gweddill Bro'r Eco yn glir o
sbwriel a baw cŵn.

Yr eiddoch yn gywir,
DEI TOMOS.
Clerc Cyngor Cymuned
Llanberis

Llwyddo'n Lleol
Hoffwn dynnu sylw eich
darllenwyr at brosiect
Llwyddo'n Lleol sydd wedi ei
sefydlu i bobl ifanc (11-19 oed)
yng Ngwynedd.
Mae'r prosiect yn cydweithio
gyda grwpiau ac unigolion yn y
sir er mwyn datblygu syniadau
menter a throi'r syniadau hyn
yn realiti trwy fwrariaeth o hyd
at £1,000 sydd ar gael. Mae'r
fwrariaeth ar gael er mwyn

cyllido eitemau hanfodol i
weithredu'r fenter e.e. offer,
dillad addas, marchnata, llogi
lleoliad ayb.
Rydym yn annog grwpiau ac
unigolyn gyda syniad busnes i
gysylltu â ni er mwyn gweld a
yw'n bosib i chi ymgeisio am
hyd at £1,000 o fwrariaeth i'ch
helpu chi i wireddu'r syniad.
Beth sydd gennych chi i'w golli?
Mae sawl grŵp ac unigolyn
wedi manteisio ar y cynllun

RHODDION

£20: Er cof am Ifan Jeffrey
Owen, Bryn Derw, Newton
Street, Llanberis; Gertie ac
Elen, 4 Hafan Elan, Llanrug.

£10: Mrs Eluned Roberts,
Deiniolen; Mrs Beryl
Griffiths, Maes Gwylfa,
Deiniolen; Neville a Jane
Thorman, Deiniolen; Mrs
Megan Pritchard, Golygfa,
Bryn Moelyn, Llanrug; Mrs
Naomi Griffiths, 11 Hafan
Elan, Llanrug; Er cof am
Dad a Mam, Mr a Mrs H.
Wheldon Morris gan Rene;
Trefor a Heulwen Edwards,
Llanberis; Er cof am Mrs
Carrie Hughes, 5 Padarn
Road, Llanberis; Mrs
Hefina Jones, Blaen Ddôl,
Llanberis; Oliver a Gwen
Edwards, Maes Padarn,
Llanberis.

£5: Jennie Angharad
Roberts, 2 Ffrwd Madog,
Brynrefail; Mrs Sarah Lewis,
Stad Tref Eilian, Waunfawr;
John ac Irene Roberts, Pant
Teg, Waunfawr; Mrs Gwen
Griffith, Fron, Deiniolen;
J.W. Deiniolen; Mrs Grace
Dawson, Stad Tref Eilian,
Waunfawr; Mr Fred Owen,
Garreg Wen, Llanberis.

£3: Edryd, Michelle a Rhion
Wyn, Waunfawr.

**Cefnogwch
ein
hysbysebwy**

mewn cymunedau ar draws y
sir yn barod er mwyn dechrau
mentrau fel gardd lysiau, trefnu
digwyddiad, agor caffi, gwerthu
gemwaith a chynnig gwasanaeth
trin coed.

Cysylltwch â mi am ragor o
wybodaeth ar 01248 672656
neu lois.jones@menterabusnes.
co.uk - edrychaf ymlaen at
glywed eich syniadau!

Yn gywir,
Lois Jones o gynllun
Llwyddo'n Lleol

Apel Am 'The Keep'



Rhan o'r set yn Glynrhonwy

Dwi'n siŵr fod llawer ohonoch yn cofio'r cyffro yn yr ardal pan wnaethpwyd y ffilm 'The Keep' yn nhyllau chwarel Glynrhonwy. Y ffilm fawr gyntaf i'r ardal hon. Wel na, fe wnaed darn o'r 'Inn of The Sixth Happiness' hefo Ingrid Bergman yma hefyd gyda llyn Padarn fel yr Afon Felyn. Ta waeth, ymlaen a'r stori.

Chafodd The Keep fawr o lwyddiant yn y bocsoffis ond erbyn heddiw mae yna adfywiad mawr yn y diddordeb ynddi a mwy na thebyg y bydd Paramount yn ei hail gyhoeddi ac ar hyn o bryd wrthi'n ei digideiddio.

Michael Mann oedd y cyfarwyddwr, ac er i'r ffilm fod yn fflap ariannol, mae wedi

cael statws cwlt gan nifer fawr erbyn heddiw. Mae Mann yntau yn cael ei gysidro fel un o'r 10 cyfarwyddwyr gorau'r oes hon.

Cafodd yr Eco gais i helpu hefo'r adfywiad yma gan gwmni ffilm o Loegr sydd yn gwneud ffilm ddogfen am y ffilm a'i chynhyrchiad. Y teitl fydd 'The Chronicles of a WW11 fairytale - The Making of Michael Mann's THE KEEP'. Bydd y ffilm yn cael ei dangos yn 2013, sef pen-blwydd y ffilm yn 30 oed.

Be ydy'r apêl i'r Eco?

Wel, mae'r cwmni'n awyddus iawn i gael unrhyw wybodaeth, lluniau, fideos ac yn y blaen o'r cynhyrchu. Mae nhw hefyd yn awyddus i ddarganfod pawb



Pwy ydi hon?



Pwy ydy'r rhain yn y llun yma? Unrhyw un yn gwybod? Yr un yn yr het galed mae nhw a fwyaf o ddiddordeb ynddo.

fu'n 'extras' yn y ffilm a gwybod eu henwau a'u manylion er cysylltu. Felly tyrchwch am yr hen luniau yna ac unrhyw beth arall perthnasol a'u hanfon i mi ar 'glasgoed@hotmail.com' neu galwch heibio Glasgoed, Ffordd Llanberis, Llanrug Ffôn 0128 6677263 (y dormer

sydd ar y chwith yn syth ar ôl mynd drwy'r sgwâr a heibio'r lle cerrig beddi - carafan yn y talcen).

O alw acw fe allaf sganio neu gopïo pethau ar unwaith fel nad oes rhaid gadael dogfennau yma - fei cewch yn ôl yn syth mewn munudau.

Yn ôl i'r dyfodol....

Dyna fu'r drefn ar fferm Blue Peris yn Ninorwig yn ystod mis Tachwedd wrth i geffylau gael eu defnyddio yno am y tro cyntaf ers cyn co'. Sally Brown yw perchennog y fferm, a rhyw ddeng mlynedd ar hugain yn ôl plannodd ei thad goedlan o bin, llarwydd a phyrwydd. Bellach daeth yn amser teneuo'r goedlan a thorri rhai o'r coed.

Doedd defnyddio tractorau neu beiriannau eraill ddim yn opsiwn, meddai Sally, oherwydd byddai natur y tir yn golygu y câi ei falu a'i dorri nes creu llastr o fewn y goedlan. Roedd hefyd yn awyddus i ddefnyddio dulliau 'gwyrrdd' er mwyn gwarchod cynefin y mathau gwahanol o fywyd gwyllt yn y goedlan. Dyna pam y penderfynwyd ar ddefnyddio ceffyl i dynnu'r boncyffion praff allan o'r goedlan, a merch arall fu'n gyfrifol am y gwaith hwnnw. Mae 'Ceffylau Gwaith

Carnog' wedi ei leoli yn Llanrhaeadr ym Mochnant, a Barbara Hadrill wedi arbenigo mewn defnyddio ceffylau i wneud y math hwn o waith. Mae ganddi ddau geffyl wrthi yn Ninorwig - Billy a Tyler. Bu gohebydd yr Eco yn gwyllo Barbara a Tyler wrth eu gwaith, ac y mae'n rhyfeddol cyn lleied o ôl traul sydd yn y goedlan wedi i Tyler lusgo boncyffion coed allan ohoni.

Mae'r coed ar werth am £50 y dunnell i'r rhai sy'n fodlon eu casglu. Ffoniwch 07789848978 neu 01286 870626. Mae rhywfaint o goed 'Dolig ar werth hefyd am £5 yr un - eto i'w casglu gan y prynwr; ac y mae Sally yn awyddus i werthu'n lleol. Felly y cyntaf i'r felin...

Ac i'r rhai ohonoch sydd am wybod mwy am waith ceffylau Barbara, logiwch i'w gwefan, sydd ag enw addas iawn, sef www.carnog.co.uk Tybed a welir mwy o'r math

hwn o waith o fewn ein bro. Yn sicr, mae'n fwy amgylcheddol gyfeillgar na'r llastr o goedwigo sy'n digwydd ar hyn

o bryd ar hen Fawnog y Go rhwng Deiniolen a Mynydd Llandegai



Llusgo coed



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â **Gomer Roberts**
Ffôn : 01286 870462
Symudol : 07962 712368

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

Aduniad Safon Pedwar, Ysgol Dolbadarn 1971-72



Cynhaliwyd aduniad cyn-ddisgyblion Safon 4 (Blwyddyn 6 bellach!), Ysgol Dolbadarn, Llanberis, blynyddoedd 1971-72, yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis ar 15fed Hydref, 2011. Roedd oddeutu deg ar hugain yn bresennol, ac roedd ambell un wedi teithio ymhell ar gyfer yr achlysur. Cyflwynwyd teisen i ddathlu pen-blwydd arbennig

y cyn-ddisgyblion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf! Casglwyd arian ar y noson tuag at Gronfa Ysgol Dolbadarn, Llanberis. Gosodwyd blodau ar fedd Mr Selwyn Pritchard, cyn-athro cofiadwy a difyr Safon 4, a hefyd Colin James Jones, un o gyn-ddisgyblion y dosbarth a gollodd ei fywyd pan oedd yn naw mlwydd oed. Rydym

oll yn parhau i gofio'n annwyl amdanynt. Trefnwyd arddangosfa o hen luniau'r cyn-ddisgyblion, a chafwyd noson hwyliog yn sgwrsio, hel atgofion a chystadlu mewn cwis gogleisiol a baratowyd ar gyfer yr achlysur. Diolchwyd i drefnwyr y noson am y paratoadau, a hefyd i berchnogion Gwesty Dolbadarn am y croeso a'r

lluniaeth. Lluniwyd yr englyn canlynol i gofio'r achlysur:
Aduniad Safon Pedwar,
Ysgol Dolbadarn, 1971-72
Aduniad er daioni - ydyw hwn
A down i drysori
Holl afiaith ein heniaith ni
Ar aelwyd bro'r chwareli.
Bryn Jones



Twrnament Rygbi Caernarfon. Llongyfarchiadau i'r tîm rygbi a fu'n cystadlu yng Nghaernarfon yn ddiweddar a phawb wedi mwynhau eu hunain. Diolch i Mr Harding am eich hyfforddi. Gobeithio yn wir y cawn ni eich gweld chi yn cystadlu yng nghystadleuaeth Cwpan Y Byd yn fuan iawn!



Aduniad. Derbyniodd yr ysgol sic o £50 gan gyn-ddisgyblion yr ysgol ar ôl iddynt fod mewn aduniad yn ddiweddar. Diolch yn fawr i Mr Bryn Jones a Safon 4 1971-1972 am eu rhodd caredig. Dreigiau Dolbadarn. Cyflwynwyd rhodd ariannol i'r ysgol gan y rhieni a fu'n rhedeg y clwb ar gyfer y genethod yn y pentref. Daeth y clwb i ben yn ddiweddar oherwydd diffyg gwirfoddolwyr. Clustnodwyd yr arian ar gyfer adnoddau chwaraeon ac Addysg Gorfforol yn yr ysgol. Diolch i bawb a fu'n ymwneud â'r clwb. Sêr Y Syrcas- Gwasnaeth Llyfrgelloedd i Blant: Daeth 29 o fedalau gloyw i'r ysgol yn diweddar oherwydd bod disgyblion yr ysgol wedi mynychu'r llyfrgell o leiaf bedair gwaith yn ystod y gwyliau! Da iawn chi i gyd - ond genethod oedd y mwyafrif ohonoch unwaith eto - blwyddyn nesaf amdani fechgyn!!

C Y M D E I T H A S UNDEBOL. Cafwyd noson agoriadol ardderchog yng nghwmni'r 'Glasanciau' o ardal Porthmadog ar y 25ain o Hydref. Diolch i bawb a fu'n paratoi ac yn darparu'r lluniaeth ardderchog a gafwyd, ac i'r rhai fu'n clirio'r festri wedyn. Llywyddwyd y noson gan Miss Marion Davies a rhoddwyd y diolchiadau gan Mrs Gwen Jones. Nos Fawrth, Tachwedd yr 8fed, bu Dr Graham Thomas, Cwm

y Glo, yn rhoi sgwrs a dangos lluniau diddorol iawn am ei ymweliad â Lesotho, gwlad fechan yn Ne Affrig, sydd gyda thirwedd debyg iawn i Gymru. Cyfeiriodd at eu dull cyntefig o ffermio a'r broblem enfawr mae 'HIV' wedi'i greu yno. Diolch yn fawr am noson addysgiadol iawn. Diolch i'r rhai wnaeth baratoi'r baned a chlirio wedyn. Llywyddwyd y noson gan Mr John H. Hughes.

POSH PAWS

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol
PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon
Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07565791010
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

CDH
Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol
2 Stryd y Plas, Caernarfon
(01286) 672727
8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Menai, Bangor
(01248) 674460
Dewch atom am gyngor ynghylch
yswariant a materion ariannol

Awdurdodir a rheolir gan yr
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

Cefnogwch ein hysbysebwr

Ysgol Dolbadarn



Hogia'r Wyddfa Yr oedd plant blwyddyn 6 wrth eu boddau yn gweld Hogia'r Wyddfa yn dod i'r ysgol i ffilmio ar gyfer y rhaglen Dechrau Canu Dechrau Canmol yn ddiweddar. Bydd y rhaglen i'w gweld yn ystod Mis Rhagfyr. Cydymdeimlo Gyda thristwch mawr y bu i holl staff a disgyblion yr ysgol glywed am farwolaeth cyn-ddisgybl yn yr ysgol, sef Kevin Edwards (tad Medi, Blwyddyn 3). Mae ein meddyliau oll gyda Mr a Mrs Trefor Edwards a'r teulu, ac yn enwedig Medi a Mathew, yn

ystod y cyfnod anodd hwn. Noson Tân Gwylt Cafwyd noson hynod o lwyddiannus a'r tywydd yn ffafriol. Daeth

llu o blant i Westy'r Padarn Lake i weld yr arddangosfa. Diolch i Elwyn a Rhian a'r teulu am eu caredigrwydd ac

am ein cynorthwyo ar y noson. Casglwyd dros £600 tuag at Gronfa'r Ysgol ar y noson. Diolch yn fawr i bawb a fu'n paratoi a chynorthwyo. Cystadleuaeth Rocedi Daeth 16 o wobrau arbennig i blant yr ysgol am adeiladu rocedi ar gyfer Noson Tân Gwylt sef tocyn aur i'w wario ar y noson. Diolch i Rhian ac Elwyn am feirniadu! Da iawn pawb - yr oedd yn gystadleuaeth agos iawn.



Dyma rai o'r disgyblion ieuengaf gyda'r tocynnau aur.



Cerdyn post a gyhoeddwyd gan Zak, Grosvenor, Llanberis. Mae dyddiad wedi ei ysgrifennu ar gefn y llun, sef dechrau Ionawr, 1962 - felly bron i hanner can mlynedd yn ôl.

CANGEN Y LLENG PRYDEINIG YN CAU I LAWR. Oherwydd amgylchiadau iechyd, mae Cangen Llanberis o'r Llang Prydeinig wedi gorfod cau i lawr. Mae'r Ysgrifennydd yn diolch i'r Cadeirydd, Swyddogion a'r Aelodau am eu cyfraniad a'u cefnogaeth i'r Gangen. Diolch arbennig i Roy a Liz Griffiths am eu gwasanaeth canmoladwy i'r Apêl Pabi dros nifer o flynyddoedd. Rydym yn gwerthfawrogi cyfraniad mawr y siopau a busnesau lleol, ynghyd â'r rhai fu'n casglu o ddrws i ddrws, tuag at yr Apêl dros y blynyddoedd. Diolch o galon i chwi i gyd.

Er bod y Gangen wedi dod i ben, bydd y Torchau Pabi yn dal i fod ar gael bob blwyddyn, er mwyn parhau â thraddodiad Sul y Cofio yn y pentref. Mae'r Ysgrifennydd yn gwerthfawrogi gwaith trylwyr Dr W. Munro a Mr Derek Jones yn yr Eglwys, ac yn y gwasanaeth o flaen y Gofgolofn, ar Sul y Cofio. Diolch hefyd i Huw Owen am gyflwyno'r 'Last Post' a'r 'Reveille' ar yr un achlysur.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248-372948
williamshy@parliament.uk

E. LL. PARRY M.S.S.CH M.B.CH.A

CHIROPODIST
HPC COFRESTREDIG

GWASANAETH
YN EICH CARTREF

Ffôn LLANRUG
675754

ARVONIA



- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiâu Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grwp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126

E-bost: info@arvonias.co.uk • Gwefan: www.arvonias.co.uk

PADARN LAKE

LLANBERIS (01286) 870260



**BWYDLEN
NADOLIG
AR GAEL 'NAWR
CINIO DIWRNOD
NADOLIG
12 o'r gloch YMLAEN**

**Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng
12.30 a 3.00 o'r gloch**

TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00
Prydau DA ar gael pob dydd, canol dydd a gyda'r nos

Cyfleusterau- Partion • Priodasau ac Achlysuron Arbennig

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth Sue Lowe

**odyn
copr**

66 Stryd Fawr
Llanberis

Ffôn: 871366



*Cyfarchion
Nadolig
Llanberis*



RHEILFFORDD LLYN PADARN



Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i holl ddarllenwyr Eco'r Wyddfa

Diolch am ein cefnogi
drwy gydol y flwyddyn



Parc Gwledig Padarn, Llanberis,
Gwynedd LL55 4TY
www.lake-railway.co.uk
01286 870549



**CELF Y
COPÄON**

MOUNTAIN ART

STRYD FAWR
LLANBERIS 870925

Safle Gwe:
www.mountainart.co.uk
e-bost:
ginger@mountainart.co.uk

- ★ Am luniau mynyddoedd
- ★ Peintiadau
- ★ Printiadau



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda i Bawb

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

**GRAHAM A JEAN
A PHAWB YN Y**

**PRINCE
OF WALES
LLANBERIS
870708**

Cwrw Blasus
Croeso Cartrefol

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i bawb oddi wrth

**H.E. HUGHES
A'I FEIBION**

**Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
Ffôn: 870444**



- ★ Gwerthwr Glo
 - ★ Olew Gwres Canolog
- i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

**Gwesty
Dolbadarn**
LLANBERIS Ffôn: 870277



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth Aneuryn a'r staff

- Papurau Newydd
- Bwyd a Diod
- 'Off Licence'
- Te a choffi
- Ar agor bob dydd
7am – 10pm
- Peiriant tynnu pres

Stryd Fawr Llanberis

(01286) 870434

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb
oddi wrth berchnogion a phawb yn Sïop*



LLANBERIS

Edrychwn ymlaen at eich gwasanaethu drwy gydol 2012

DMM



Nadolig Llawen

a

Blwyddyn Newydd Dda

oddi wrth bawb yn

DMM

LLANBERIS



www.dmmwales.com

ECO'r Wyddfa


Nadolig Llawen i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd
Dda oddi wrth bawb yn

SIOP a FFERM FÊL YR WYDDFA

STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: **870218**



Diolch am eich
cefnogaeth drwy'r
flwyddyn



GWIN
a
MEDD



**SWIGOD
A
SEBON**

SYCHLANHAU

Altro • Ailwnio

GWASANAETH
Casglu a Danfon

Gwasanaeth Golchi a Smwddio

54 STRYD FAWR LLANBERIS
(01286) 870088

CYFARCHION Y TYMOR A DYMUNIADAU GORAU



oddi wrth



Dylan Davies

MODURDY'R WYDDFA

LLANBERIS Ffôn: 870225



Ceir ar werth; M.O.T.

Gwasanaeth Torri Lawr Ddydd a Nos

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chwi oll
oddi wrth bawb yn siop



HAIRLINES

Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870328



E. W. Pritchard

CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn Llanberis a'r cylch



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda
oddi wrth bawb yn y gwesty.

Diolch am eich cefnogaeth trwy'r flwyddyn.

★ Priodasau ★ Dathliadau

★ Achlysuron Arbennig

★ Cynadleddau ★ Pwyllgorau

★ Bwydlen Bar ★ Cinio Dydd Sul



**THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL**

LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 08444 119 003

wrth droed yr Wyddfa

Ffair Nadolig Mynydd Gwefru Sadwrn 3ydd a Sul 4ydd o Rhagfyr 2011

Ymunwch a ni am benwythnos o weithgareddau! Stondinau Crefft,
Cynnyrch Lleol, Teisennau Cartref, Melysion, Gemwaith Llaw a
llawer mwy! Hyrwyddiad arbennig y penwythnos hwn;
Disgownt o 10% ar bob pryniant £15 neu mwy yn ein siop eang!

Sadwrn 3ydd Rhagfyr 9.30yb tan 9yh
Sul 4ydd Rhagfyr 9.30yb tan 5.30yh (mynediad olaf 5.15yh)

Agoriad hwyr nos Sadwrn 9yh!! - Ymunwch yn yr hwyl gyda'n Disgo ar Rew!!!

Ymwelwch a Santa yn ei Groto, Nwyddau Nadolig i't teulu oll, Cor Lleol a Band Pres,
Artist Tatw Henna, 'Y Den' man chwarae plant a llawer mwy....

Cysylltwch a ni ar 01286 873020 neu ebost info@electricmountain.co.uk

Y BWTHYN TÊ
pen y ceunant isaf
LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS



Nadolig Llawen i bawb

PEN Y CEUNANT ISAF-
BWTHYN A ADEILADWYD AR WAELODION
LLWYBR YR WYDDFA (O LLANBERIS)
YN YSTOD Y 18ed. GANRIF. CEWCH GROESO
ARBENNIG YMA, YN OGYSTAL A GOLYGFYDD
GWYCH DROS LLYN PADARN A
DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am.- 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYN
DIODYDD GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydau o gwbl)
MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN • YN ADDAS I'R ANABL
Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
a llu o arlunwyr Cymreig eraill

(01286)872606 www.ceunant.co.uk
steven@ceunant.co.uk



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.fframia.com
Gwasanaeth Fframio Lluniau
Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen Keith Andrew a mwy



Allports
pysgod a sgolodion o fri
Mae'r criw yn diolch
i'n holl gwsmeriaid
am eu cefnogaeth
*Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i chl i gyd!*
56 STRYD FAWR LLANBERIS Ffon 872686

Nadolig llawen gan holl staff
Amgueddfa Lechi Cymru!

Dewch i ymweld â ni y gaeaf yma!



Sion Corn a Ffair Gaeaf
27.11.2011

Arddangosfeydd

Sioe Trenau Bach
16 - 19. 2. 2012

Arddangosiadau

Atyniadau cynnes braf

Caffi clyd a prydau
Nadoligaidd

AMSEROEDD AGOR Y GAEAF 2011
10am- 4pm Dydd Sul - Dydd Gwener
(ar gau ar ddydd Sadwrn)
DROS Y NADOLIG BYDDWN AR GAU:
23, 24, 25, 26, 27, 31 Rhagfyr a 1, 2 Ionawr 2012

CINIO NADOLIG
1,2 neu 3 cwrs ar gael
BOB DYDD IAU
trwy Rhagfyr!
Ffoniwch am fanlylion
(01286 870630)

Amgueddfa Lechi Cymru
Llanberis, Gwynedd LL55 4TY
☎ 01286 870630
www.amgueddfacymru.ac.uk

National
Museum
Wales

Cafodd Gethin Griffiths, Bethel, o Ysgol Brynrefail, fu allan yn y Wladfa gyda chriw yr Urdd, ganmoliaeth y beirniad cerdd, Sioned Webb, fel arweinydd y parti merched yn Eisteddfod y Wladfa.



Geraint yn arwain cor merched yn y Wladfa

CLWB BRO BETHEL. Gan mai'r Is-Lywydd oedd yn annerch a'r Llywydd yn methu bod yn bresennol croesawyd pawb ynghyd gan Jenkin Griffiths. Llongyfarchwyd un o'r aelodau, sef Megan Humphreys a'i phriod, ar ddathlu Priodas Aur yn ddiweddar a dymunwyd yn dda iddynt. Cytunodd Ann Ellis Williams i osod y dorch yn enw'r Clwb ger y Gofeb ar Sul y Cofio a braf oedd cael cyhoeddi fod y Clwb wedi derbyn rhodd ariannol o £100 gan Gyngor Cymuned Llanddeiniolen. Geraint Elis oedd y gŵr gwadd a chafwyd ganddo sgwrs ddiddorol iawn gyda chymorth lluniau yn dwyn y teitl 'O Eryri i

Batagonia'. Roedd dau lond bws wedi mynd i'r Wladfa yn ystod gwyliau Pasg eleni ac yn eu mysg saith o bobl Bethel. Roedd y lluniau yn ddifyr iawn yn dangos adeiladau, ysgolion, Capeli ac, wrth gwrs, personau oedd yn adnabyddus i bawb. Diolchwyd iddo am rannu ei wyliau efo'r aelodau gan Ieuan Williams. Y tro nesaf bydd yr aelodau yn ciniawa yn y Gors Bach.

C Y M D E I T H A S L E N Y D D O L UNDEBOL. Cychwynnwyd gweithgareddau'r Gymdeithas am eleni gyda noson yng nghwmni Y Boncathod. Croesawyd pawb ynghyd gan y Llywydd Dr. J. Elwyn Hughes a braf oedd cael gwrando

ar griw o ferched Dyffryn Ogwen yn cyflwyno nifer fawr o alawon gwerin, pob un â chysylltiad ag ardal yng Nghymru. Llannerchymedd oedd man cychwyn y daith ac, ar ôl crwydro i sawl lleoliad, gorffennwyd y daith yn Nhredegar. Diolchwyd yn gynnes iawn iddynt am noson agoriadol arbennig ac am gyflwyno'r alawon mewn ffordd gwbl werinol. Diolchodd y Llywydd i Eirlys Sharpe a'r merched am ofalu am luniaeth i bawb cyn troi am adref. Dathlu'r Nadolig fydd yr aelodau y tro nesaf a hynny dan ofal Beti Owen nos Fawrth Rhagfyr 14 yn Festri Cysegr.

APÊL BETHEL, LLANDDEINIOLLEN A SEION

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Eryri 2012.

Mae'n braf cael cyhoeddi fod y nod o bum mil o bunnoedd a glustnodwyd i'r pentref gan yr Urdd wedi ei gyrraedd a throsodd. Mae yr Apêl yn dal ar agor i unrhyw un sydd eisieu cyfrannu ymhellach.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch o galon i bawb wnaeth ymateb i'r apêl. Diolch i aelodau'r pwyllgor a fu'n casglu o dŷ i dŷ yn y pentref. Os oes unrhyw un yn dymuno stiwardio yn ystod wythnos yr Eisteddfod - mae ffurflenni ar gael gan Manon (670704). Gobeithio y cawn fwynhau yr Eisteddfod pan ddaw i Glynllifon yn 2012.

Cofiwch ddefnyddio
SWYDDFA POST BETHEL
 (01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan,
CLED A SUSAN A'R TEULU

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant Tynnu Pres (Cashback)

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn a Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

ORIAU AGOR
 6 a.m.-7.30 p.m. (Llun-Sadwrn)
 6 a.m.-3 p.m. (Sul)
 10 a.m.-12pm (Diwrnod Nadolig)

BOSCH Service
Car Service

BOSCH Service **OFT** Approved code

www.a-v-w.co.uk
01286 673559

CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
CEIR, CAMPERS A FANIAU

AVW **BOSCH Car Service**

YREGLWYS BRESBYTERAIDD

LLONGYFARCHIDADAU A CHOFION. Hyfrydwch yn ystod yr oedfa nos Sul Tachwedd 20fed oedd llongyfarch Maurice Jones, Meillionen, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 90 oed ar Dachwedd 14eg. Yr un modd cyfeiriwyd at Gwyneth Evans ar ddydd ei phen-blwydd ar Sul yr 20fed - anfonwyd cofion cynnes atynt y ddau heb fod yn dda eu hiechyd ers peth amser ac rydym yn eu colli o'r moddion. Llongyfarchwyd Gwyneth yn ogystal ar ddod yn hen nain. Ganed merch fach, Mali Efa, i'w hwyres Rhian a Kelvin, Bryn Eglwys, Penisarwaun. Anfonwyd cofion hefyd at Bertie Roberts, Llwyncoed Bach, sydd yn Ysbyty Gwynedd yn dilyn damwain gartref a Robert John Williams, Tyddyn Badin, ef yn dilyn triniaeth yn Ysbyty Gobowen, gan ddymuno adferiad buan i'r ddau.

OEDFAON RHAGFYR

- 4 am 5.30, Parch Marcus Wyn Robinson, Bethel
- 11 am 5.30, Parch Deian Elfed Evans, Gofalaeth Bro Lleu
- 18 am 2.00, GWASANAETH NADOLIG gyda lluniaeth i ddilyn yn y Caban.

CYDYMDEIMLO.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Dilys Evans, Min y Don, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd y diweddar Gwyn Jones, Caergybi.

DATHLU PEN-BLWYDD

Yn dilyn lansio ei Hunangofiant O'r Castell i'r Llys ar Hydref yr 8fed, dathlodd William H. Griffith, Llys ei ben-blwydd yn 84 ar Hydref 29ain. Dyma benillion anfonwyd i'w gyfarch yn arbennig ar yr achlysur gan ei wyres, Heledd Jones, Caerdydd.

Penillion pen-blwydd i Taid

*Fe ddaeth y diwrnod eto
I ganu oll ynghyd,
Cawn seinio 'Pen-blwydd hapus'
Dros bedwar ban y byd.*

*Llyfr i ddathlu llwyddiant,
Yn deyrnged – hyd yn oed
Am oes o drin y mawrion -
Ei gewri ysgafn droed.*

*Mae'r bachgen bach o'r Castell
A'r gŵr o fferm y Llys
Yn dathlu heddiw'n llawen
Yn wên o glust i glust.*

*Gwasgarwyd y plant a mentro
Tu hwnt i filltir sgwâr,
Ond adra eto'n ffyddlon
Daw pawb i weld y pâr.*

*Roedd hon yn flwyddyn fawr
Yn siŵr o fynnu'i lle
Yng nghalonau a meddyliau -
Fe ddaeth ei 'Lyfr' i'r dre.*

*Nain yn hwylio'r bwrdd a'r te
I'r criw a ddaw o bell
I weld y 'Birthday boy' o'r Llys,
Yn un man ni cheir gwell!*

ADREF O'R YSBYTY.

Croesawn Mrs Rhian Jones, Bron Eryri, adref gan ddymuno gwellhad buan iddi wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd ac yna ysbaid yn Ysbyty Eryri, Caernarfon.

LLONGYFARCHIADAU

i Ffion Roberts, 22 Dôl Afon, ar ennill Gwregys Du mewn Karate. Dymuna Ffion ddiolch i Sara Salisbury Burnam, Llanberis, am ei hyfforddi.

CAPEL Y TABERNACL.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch ar 16 Hydref gyda'n Gweinidog, y Parch Gwynfor Williams yn gwasanaethu. Yn ystod y gwasanaeth bedyddiwyd Kacie Lee, merch fach Nicola a Mark, ac wyres fach Angela a Kevin Cyster, Tryfan.

NOSON NADOLIG I'R GYMUNED.

Mae Pwyllgor Neuadd y Gymuned Cwm y glo yn trefnu noson arbennig yng Nghwm y Glo ar gyfer

nos Fawrth, 6 Rhagfyr. Bydd goleuadau'r goeden Nadolig yn cael eu troi ymlaen am 6 o'r gloch ar fuarth y pentref yn ogystal â garej Cwm (London Garage). Bydd plant yr ysgol yn canu carolau a chaiff pawb gyfle i fwynhau paned a mins pei yn neuadd yr ysgol a chyfle i brynu rhai eitemau er budd yr ysgol.

Am 7 o'r gloch bydd y dathliadau yn symud o'r ysgol i Menter Fachwen i fwynhau'r croeso Cymuned Fusnes y Pentref.

Gobeithir yn fawr y byddwch yn cefnogi'r noson hon yn y gobaith y cawn sefydlu traddodiad o gynnal noson debyg yn flynyddol.

CROESO CYNNES I

BAWB i Gyngerdd Nadolig yr Ysgol. Cynhelir y Cyngerdd Nadolig eleni yng Nghapel Tabernacl, Cwm y glo, am 6.30 ar nos Fawrth, 13 Rhagfyr.

UNDEB Y MAMAU.

Cafwyd cyfarfod yn Feed my Lambs Caernarfon bnawn Mawrth, 15 Tachwedd pryd y croesawodd Mrs Auriel Howells bawb a chafwyd gwasanaeth byr. Darllenwyd y gweddiau gan Margaret Davies a thraddodwyd y fendith gan y Ficer, Y Parch Jeffrey Hughes.

Darllenodd Mrs Howells gofnodion y cyfarfod a gafwyd mis Hydref a thrafodwyd rhai materion.

Bydd y Cinio Nadolig yn cael ei gynnal ar 2 Rhagfyr yng Nghlwb Golf Caernarfon.

Gwasanaeth Carolau yn y

Gadeirlan Bangor am 2 o'r gloch ar 7 Rhagfyr.

Gwasanaeth Carolau yn Eglwys Sant Mair am 2 o'r gloch ar 13 Rhagfyr.


Croesawyd y wraig wadd, Mrs Gwen Jones, gan Mrs Howells a chafwyd adroddiad, cân a ffilm gan Gwen am fywyd ei mam, Mrs Dilys Baylis, Llanberis. Yn gofalu am y lluniaeth oedd Mrs Louise Jones a Mrs Ruth Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs Nerys Jones.

Diolchwyd i Gwen a'r gwesteion gan Margaret Davies.

Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras.

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



cysylltwch â Mantell Gwynedd

– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfynedig drwy Warant 3420271

Cefnogwch ein hysbysebwyd

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN


Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL



ODDI WRTH
MORRIS BROS.
BECWS GORS BACH, CWM Y GLO
Ffôn: Llanberis 870430

HEFYD YM

MECWS PEN Y BRYN

LLANBERIS Ffôn: Llanberis 870268

70 STRYD LLYN CAERNARFON Ffôn: 675526

Nadolig Llawen
a diolch am eich
cefnogaeth

oddi wrth

Alwyn a Sarah

Racca

Penisarwaun Ffôn: 870605

Rithoedd Celyn,
Coed Nadolig, 'Crem Pots' a
Rithoedd Drws.

Basgedi Planhigion,
Trefniadau blodau Silc.



RHODD O'R GALON YW BLODAU



AM BETROL, DEISEL
OLEW AC AMRYFAL
ANRHEGION MODURO



GORSAF BETROL LONDON GARAGE CWM-Y-GLO

Ffôn: Llanberis 872046

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda i bawb



L.G. OWEN

PENISARWAUN

GWAITH ADEILADU CYFFREDINOL

Gwaith Cerrig- walio a gwynebu

Gwaith Tir-dreinio

Decio a Ffensio - Patios

Llwybrau- Concretio - Dreifs

Bloc Paving a Tharmacio

Gwaith o safon, gyda prisiau rhesymol (Yn gwbwl yswiriedig)

CYSYLLTWCH ▶ 07896739544
NEU ▶ 07787532369

Nadolig Llawen a BLWYDDYN NEWYDD DDA



Gwasanaeth Gwres a Plymio



Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones • Tyn y Maes • Cwm y Glo LL55 4DH
Tel. (01286) 872225 Mobile- 07798 746718



BOCS O
FFRWYTHAU A LLYSIAU
£10. Wedi ei ddanfôn
AM DDIM yn lleol

ffoniwch - WIL, PEN-LLYN 07990926484



Nadolig Llawen
A Blwyddyn Newydd Dda
i holl ddarllenwyr yr Eco


Hoffwn ddiolch i'n
cwsmeriaid lleol am eu
cefnogaeth trwy gydol y
flwyddyn!



Caffi Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban

Nadolig
Llawen a
Blwyddyn
Newydd
Dda



oddi wrth bawb yn

LONDON GARAGE

Cwm-y-glo

Ffôn: 870234

Ar agor: 9-5 Llun - Gwener

9-1 Sadwrn

MOT. Disel, Petrol

Gwasanaeth ac

Atgyweirio



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda oddi wrth

Richard S. Humphreys



ORIEL CWM

Cwm-y-glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau gwreiddiol
gan Artistiaid Lleol

CYNGOR CYMUNED LLANRUG

Mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar y 18fed o Hydref 2011 trafodwyd y materion canlynol gyda PCSO Michael Couling o'r Heddlu:

- Presenoldeb aelod o'r Heddlu yn y gymuned.
- Ieuenctid yn yfed o gwmpas y pentref ac yn gadael gwydr ar y caeau chwarae sy'n berygl i'r plant sy'n chwarae yno.
- Perchnogion cŵn anghyfrifol syn gadael iddynt faeddu'r palmentydd, llwybrau a'r caeau chwarae.
- Problemau parcio ar sgwâr Llanrug a ceir yn cael eu parcio ar y llinellau melyn.
Penderfynwyd:
 - Archebu 6 teclyn i godi sbwriel er mwyn tacluso'r pentref.
 - Cyfrannu £500 am 2011-12 a £500 arall am 2012-13 i Gynllun EFE.
 - Rhoi grant o £725 i Eco'r Wyddfa yn unol a'r penderfyniad yng nghyfarfod Medi ar gyfer elusennau lleol.
 - Cyfrannu £350 i'r Eisteddfod leol.
 - Peidio rhoi seddi yn safle bws Dolafon gan rhag i hyn wneud i yfed o dan oed ddigwydd yno.

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLLEN Crynodeb o gofnodion Hydref

Gweddi. Offrymwyd y weddi agoriadol gan Richard Llwyd Jones.

Llongyfarchwyd Richard ar ennill Cadair Eisteddfod Y Tymbl.

Safle ailgylchu Rhiwlas. Ateb Gwynedd y byddant yn gosod camera cudd yno maes o law ond mae'r drefn o gael hawl i'w osod yn broses hir.

Materion Prifffyrdd:

Deiniolen, Torri gwair, – Cyfaddefiad Gwynedd nad oedd y gwaith o safon derbyniol, eu bod wedi trafod gyda'r contractwr a gobeithio bydd y gwaith yn well yn yr hydref.

Gallt y Foel, gordyfiant – y gang gymunedol i ymgymryd â'r gwaith a rhoir rhybudd i berchnogion tir i wneud yr un fath.

Trem Eilian, gordyfiant – y gang gymunedol i ymgymryd â'r gwaith. Ychwanegodd Pat Jones mai tyfiant y tu cefn i'r ffens sy'n amharu ar y gweledd.

Cae Cerrig, Deiniolen – Gwynedd wedi asesu'r ffordd ac heb weld diffyg ond gwneir profion arbenigol ar wyneb y ffordd rhag ofn bod ei gallu i wrthsefyll sgidio wedi dirywio. **Gwasanaeth Cynnal yn y Gaeaf** – ateb Gwynedd na fyddant yn darparu mwy

o flychau halen. Cyfeiriodd Len Jones at y cais am flwch halen ger ysgol Gwaun Gynfi – yr ysgol uchaf yn yr ardal sy'n dioddef effaith y tywydd yn fwy na 'run arall. Ychwanegodd Phyllis Ellis bod y sefyllfa'r ddrwg o flaen ysgol Penisa'rwaun. Penderfynwyd pwyso eto ar y ceisiadau yma i'r Adran Ffyrdd a'r Adran Addysg.

Mynwent Macpella, Deiniolen. Ateb Alun Wyn Jones, Gwynedd, yn dweud ei fod am gael arolwg pellach a barn yr archwiliwr cyn ystyried gosod giât mochyn yno. Hefyd ei fod wedi anfon y cais i ostwng wal at yr uned diogelwch ffyrdd.

Llwybrau diogel i ysgolion. Cyfeiriodd y cadeirydd at y bont newydd i feicwyr sydd newydd ei hadeiladu dros y ffordd fawr yn Felin Hen a bod y gost yn siŵr o fod yn eithriadol. Gellid bod wedi cwblhau'r llwybr diogel i ysgol Cwm y Glo a llawer ysgol arall am bris y bont i ychydig o feicwyr. Cyfeiriodd Richard Ll. Jones at y bont gan gofio bod dwy bont gerrig yn croesi'r ffordd cyn cael eu chwalu, dylid gofalu am hen bontydd cerrig a efallai eu defnyddio ar gyfer beicwyr

Crynodeb o gyfarfod Tachwedd

Gweddi. Dechreuwyd y cyfarfod trwy weddi gan Richard Ll. Jones.

Gareth Roberts.

Croesawodd y Cadeirydd Gareth o 'Delweddu Gareth Roberts' gan ei wahodd i awgrymu dilyniant i'r mapiau hanes. Awgrymodd Gareth sawl opsiwn o gofnodi hanes yr ardal a'i fwriad o gydweithio â Menter Fachwen ar gyfer datblygiadau technegol fel mapiau digidol.

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, Cyngor Gwynedd a Môn – cyfle i roi gwybod am safleoedd i'w datblygu a'u gwarchod, bydd y gofrestr ar agor o 1leg o Hydref tan y 13eg o Chwefror 2012.

Bryn'refail. Dywedodd Pat Jones bod y ceir sy'n parcio ar y ffordd trwy'r pentref yn amharu ar drafnidiaeth drwodd yn enwedig i gerbydau mawrion a bysiau. Awgrymodd gofyn i Wynedd a oes modd prynu ac addasu'r tir gwastraff

ger y bont yn faes parcio – cais i Wynedd.

Llwybrau. Dywedodd Phyllis Ellis bod y clo yn dal ar lwybr 93 Cegin Arthur, Penisa'rwaun, awgrymodd Elspeth Mitcheson gyfeirio'r gwyn i gyfreithiwr y Sir. Cyfeiriodd hefyd at y gwyn flaenorol am lwybr Cae Meta sydd wedi ei ddargyfeirio yn answyddogol trwy'r afon. Hefyd nad yw'r llwybr y tu cefn i'r Eglwys wedi ei gofrestru.

Ychwanegodd Len Jones nad yw Gwynedd wedi ymdrin â'r tyfiant a'r dŵr ar lwybrau 49, 50 a 141 Fachwen na'r gordyfiant ar lwybr 30 Tan yr Henffordd, Deiniolen.

Gwnaeth Hefin Williams ddau sylw:

1. Gwaith patchio Gwynedd yn brin o wneud dros y ffordd i'r hen bost, Rhiwlas.

2. Angen Moratorium/cofrestr, mae llawer o lwybrau cyhoeddus Rhiwlas heb rif.

Tynnu sylw Gwynedd at y materion uchod.

Bro Bethel: £100; Clwb Snwcer Deiniolen: £150; Clwb Snwcer Bethel: £150; Clwb Orwig: £100; Ysgol Feithrin Deiniolen: £150; Cymdeithas Lenyddol Bethel: 100; Clwb Rhiwen Rhiwlas: £100; Ti a Fi Penisa'rwaun: £150.

Biniau. Dywedodd Elfed Williams bod gwir angen bin y tu allan i'r Co-op, Deiniolen, cyfeiriwyd hefyd at y cais blaenorol i ail-osod y biniau trwy'r pentref – llythyr i Wynedd.

Goleuadau. Dywedodd Pat Jones bod tyfiant o gwmpas y goleuadau ar hyd ffordd Cyttir – cwyn i Wynedd.

Tan y Gaer, Penisa'rwun. Dywedwyd bod car gofalwraig yn parcio o flaen Tan y Gaer yn cau'r ffordd – adroddiad i'r Heddlu.

Cynllunio. Derbyniwyd pum cais.

Llwybrau

Chwarel Goch – dywedodd Len Jones bod angen atgoffa Gwynedd o'n cwynion ym Mis Mai 2011.

Gegin Arthur – dywedodd Phyllis Ellis bod y clo yn dal ar y gât er yr holl ohebu.

Cae chwarae, Clwt y Bont – cyfeiriodd Gwilym Williams at y sbwriel sydd wedi ei adael yno a bod angen archwilio cyflwr y bont.

Gwarchod planhigion

Roedd ein hardal ni yn boblogaidd iawn gydag ymwelwyr cynnar oherwydd ei bod mor gyfoethog mewn planhigion. Botanegwyr oedd y twristiaid cyntaf, yn heidio i fynyddoedd Eryri i gasglu planhigion. Adroddodd Dewi Jones, Penygroes eu hanes yn fanwl yn ei lyf Tywysyddion Eryri. Erbyn heddiw, mae'r planhigion rheini yn cael eu gwarchod gan ddeddf gwlad, ond tybed pryd y dechreuwyd sylweddoli pa mor fgythiol oedd y casglwyr cynnar i fodolaeth rhai o'r planhigion prin sy'n tyfu ar lethrau'r mynyddoedd?

Roedd deddfau'n bodoli erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg i warchod adar, ond mae'n ymddangos mai diweddarach fu'r symudiad i geisio gwarchod planhigion.

Yn ystod y mis diwethaf, tra'n pori drwy ddogfennau yng nghasgliad Cyngor Sir Gaernarfon, deuthum ar draws llythyr oddi wrth Gyngor Cricieth ym 1909 yn gofyn ar i adran gyfreithiol y Cyngor Sir sefydlu is-ddeddf yn gwahardd casglu rhedyn a phlanhigion gwyllt eraill oddi ar ochrau'r ffyrdd gwledig, 'especially by visitors'! Mae'n ymddangos mai ymwelwyr oedd yn parhau gyda hen draddodiad y botanegwyr cynnar. Mae'n amlwg fod Cyngor Cricieth yn cymryd y broblem o ddifrif,

Llongau'r Chwarelwyr

Does gen i ddim i'w ddweud wrth y môr, a does gan ardal yr Eco ddim traeth. Rhowch fynydd i mi unrhyw dro. Ond roedd rhai o chwarelwyr a thrigolion eraill y fro yn buddsoddi mewn llongau ar un cyfnod, ac enwau'r llongau rheini yn adlewyrchu'r ffaith fod cysylltiad ganddynt â'r fro hon.

Yn Sunderland yn 1876 adeiladwyd llong hwylio dri mast a mil o dunelli o'r enw Glandinorwig. Y perchnogion oedd William Edward Jones, Y Felinheli (tair siâr), Samuel Jones, Melin Glandinorwig (59 siâr) a David Pierce Williams, fferyllydd o Lanberis (2 siâr).

Flwyddyn yn ddiweddarach, eto yn Sunderland, adeiladwyd dwy o longau eraill o'r un maint, a'u henwi yn Glanperis a Glanpadarn. Y perchnogion oedd Samuel Jones, David Pierce Williams, Hugh Williams, Tyddyn Bach, Llanbeblig (ffermwr) a William Parry, Clogwyn Gwynion, Llanddeiniolen (asiant chwarel).

Yn yr un flwyddyn adeiladwyd y Moel Eilian, gyda phump o berchnogion, sef William Edward Jones, Y Felinheli, William John Williams, Minffordd, Bethel, Thomas Hugh Jones, Bangor, Morris Thomas, Rhiw Goch, Llanddeiniolen ac Owen Williams, Penllyn.

Cwmni lleol yr Eryri Shipping Company oedd perchnogion Glanivor a adeiladwyd yn 1878. Gwerthwyd y llong hon i gwmni llongau o'r Eidal yn mis Mai 1899.

Yn 1882 adeiladwyd Moel y Don, llong oedd yn eiddo i'r Gwynedd Shipping Company o Glwt y Bont. Rhestrir pedwar o'r cyfranddalwyr fel William Williams, Minydon, Llanberis (gŵr bonheddig), y Parch William Rowlands, Ebenezer (gweinidog Methodist), Morris Thomas, Rhiw Goch, Llanddeiniolen (marsïandiwr grawn) a Thomas Currie, Llanberis, (chwarelwr).

Tybed oes lluniau ar gael o'r llongau hyn, neu wybodaeth am y cwmnïau lleol a sefydlwyd i hyrwyddo masnach.

Sinemâu lleol

Yn 1922 rhestrwyd holl sinemâu'r hen Sir Gaernarfon ynghyd â'u perchnogion. Dwy yn unig oedd yn yr ardal hon, sef yr Empire Picture Palace, Llanberis, a oedd yn eiddo i rywun o'r enw F.C. Hamilton, a Tŷ Clwb, Clwt y Bont.

Ble'n union roedd Tŷ Clwb,

Clwt y Bont, a pha mor fawr ydoedd i ddal cynulleidfa o chwarelwyr? Roedd enw'r perchennog yn awgrymu dieithryn hollol, sef D. Toummavoh. Oes unrhyw un wedi clywed amdano o'r blaen, ac am faint y bu Sinema Tŷ Clwb yn bodoli yng Nghlwt y Bont?

CHWILOTA



oherwydd ynghlwm wrth eu llythyr roedd un a anfonwyd atynt o Gyngor Sir Surrey; a'r un oedd y broblem yno hefyd, mae'n amlwg, gan fod y Cyngor hwnnw yn ceisio cael barn y Llywodraeth ar ddeddfu i wahardd casglu planhigion arbennig.

Ond mae'n amlwg fod Cyngor Sir Dyfnaint ar y blaen iddynt. Roeddent hwy eisoes wedi pasio is-ddeddf mor gynnar â 1906 yn gwahardd casglu planhigion. Roedd unrhyw un a gâi ei ddal a'i gael yn euog

yn wynebu dirwy o £5; cryn dipyn o arian ganrif yn ôl. Ond roedd un cymal yn yr is-ddeddf yn caniatáu casglu planhigion 'i ddefnydd gwyddonol'. Doedd ysbryd yr hen fotanegwyr ddim wedi darfod yn Nyfnaint chwaith.

Diddorol fyddai cael gwybod a oedd unrhyw un o fro'r Eco yn ymddiddori yn y maes hwn ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf, ac a fu rhai o gynghorau'r fro yn trafod y pwnc hyd yn oed.

Brograffiadur: Syr Henry Morris-Jones

Un arall i'w ychwanegu at enwogion y fro, y tro hwn o'r Waunfawr. Fe'i ganed fis Tachwedd 1884 ar Allt y Bont, ble roedd ei rieni yn cadw'r Swyddfa Bost. Derbyniodd ei addysg yn Ysgol David Hughes ac yna yng Ngholeg meddygol St Mungo yn Glasgow, lle graddiodd yn 1906. Sefydlodd yn feddyg ym Mae Colwyn, ac yn yr ardal honno y bu'n weithgar ym myd llywodraeth leol. Yn etholiad cyffredinol 1929 safodd fel ymgeisydd Rhyddfrydol yn Ninbych ac ennill y sedd gyda mwyafrif sylweddol o dros 8,000 o bleidleisiau.

Mor gynnar â 1949 roedd yn hyrwyddo'r syniad o sefydlu Ysgrifennydd Gwladol a Swyddfa Gymreig yng Nghymru, ond bu'n rhaid

disgwyl dros bymtheng mlynedd cyn gwireddu'r freuddwyd honno. Wnaeth Morris-Jones ddim sefyll yn etholiad 1950.

Er ei fod yn feddyg, neu efallai oherwydd ei fod yn feddyg ceidwadol ei draddodiadau, roedd yn wrthwynebus ar y cyfan i sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol.

Ar wahân i gyhoeddiadau meddygol, ysgrifennodd un llyfr, sef Doctor in the Whips' Room.

Bu farw yn 1972. Mae llawer o'i ddogfennau personol ar gadw yn Archifdy Penarlâg.

Ond beth am ei deulu'n y Waunfawr? Yn 1891 rhestrir Mary, Magdalene, Jenny, William. Hugh ac Ellin. Tybed a arhosodd rhai o'r rhain yn yr ardal, ac a oes disgynyddion iddynt yn dal yma heddiw?

Ty'n y Buarth

Ymddiheuriadau am gymysgu dau eiddo yn y rhifyn diwethaf o'r Eco. Soniais am Dy'n y Buarth yng nghefn hen Ysgol Glanmoelyn, ond tyddyn oedd y lle o'r enw hwnnw ar Ffordd Glanmoelyn presennol. Buarth, neu'n gynharach, Buarth gwarchae oedd yr enw ar y tŷ bychan yn yr iard lo oedd gen i dan sylw. Diolch i Mrs Naomi Griffith, Hafan Elan am fy nghywiro.

Ond does neb wedi anfon llun o'r un o'r ddau le i mi, felly, mae'r apêl yn parhau.

Cwta bythefnos sydd tan rifyn y Nadolig, felly rhaid brysio os am ymateb i unrhyw ran o'r golofn neu os am anfon ymholiad i mewn ynglŷn ag unrhyw agwedd o hanes y fro. Anfonwch at Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (Ffôn: 01286 673515).

Ysgol Brynrefail



Enillydd y Gadair yn Eisteddfod Brynrefail eleni oedd Gethin Griffiths sy'n hanu o bentref Bethel. Mentrodd Gethin gyda stori dan y teitl 'Wyneb yn Wyneb', stori drosiadol ac sydd, yn ei gwraidd, yn sôn am ddynoliaeth yn cael ei ddal rhwng drwg a da. Mae'r prif gymeriad yn y stori yn cael y cyfle i gyfarfod angel a'r diafol. Cafodd ei waith ganmoliaeth o'r radd uchaf gan y beirniaid, Huw Foulkes, oedd yn cymell ei gyhoeddi.



Enillwyr Eisteddfod Brynrefail



Gethin Griffiths
Y Gadair




Rhodri Brookes
Enillydd Tlws Mwyaf o Farciau Llwyfan Bl.10-13



Arron Hughes
Abstract ar y thema 'Geir y Dŵr'

“Y byd i’n disgyblion a disgyblion i’n byd”



Llinos Roberts

Tlws Technoleg




Gwenno Gibbard

Tlws Emma Bernard (perfformiad gorau ar y llwyfan)



Mared Jones Blwyddyn 9

Tlws Ffrangeg



William Lamb Blwyddyn 9

Tlws mwyaf o farciau o flaenllaw'r Eisteddfod

Gwenno Gibbard ac Owain Jones

Capteiniaid Eilian, y tŷ buddugol.

Y BEIRNAID

Beirniad y cystadlaethau llenyddol, cerdd a llefaru eleni oedd Huw Foulkes. Yn enedigol o Fethel ac yn gyd-ddisgybl o Ysgol Brynrefail, mae'n wyneb cyfarwydd i ni i gyd yma. Yn dilyn ei lwyddiant yn ei TGAU, aeth i'r Chwched Dosbarth i astudio'r Gymraeg, Hanes a Cherddoriaeth. Roedd hefyd yn brif ddisgybl. Ymhlith rhai o'i uchafbwyntiau mae actio yn y gyfres boblogaidd Porc Peis Bach, ennill y Fedal Ddrama yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, a sicrhau rhan yn y cynhyrchiad Cymraeg cyntaf o Les Misérables gyda Chwmni Theatr Genedlaethol Cymru. Aeth yn ei flaen i astudio'r Gymraeg a Newyddiaduraeth yn y Brifysgol yng Nghaerdydd. Bellach mae'n ohebydd newyddion gyda'r BBC. Ond y mae'r diwylliant Cymraeg yn parhau i fod yn rhan hanfodol o'i fywyd - ef yw arweinydd Aelwyd y Waun Ddyfal.

Cyd-feirniad Huw yn y cystadlaethau Cerdd a Llefaru oedd Trystan Ellis Morris. Yn wreiddiol o Ddeiniolen - un o hogia Llanbabs - mae o bellach wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd. Yn gyd-ddisgybl o'r ysgol hon, graddiodd yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin, cyn mynd ati i ddilyn gyrfa yn y cyfryngau. Mae o'n wyneb cyfarwydd ar ein setiau teledu yn gohebu o'n prifwyliau, ac ef yw un o wynebau blaenllaw CYW ar S4C. Bu'n aelod gweithgar iawn o fand Deiniolen dros y blynyddoedd - ac mae o'n drombonydd heb ei ail (meddai ei fam!!) Yn ystod ei amser hamdden mae o'n aelod o Gôr Dydd.

Bu Angelica Evans a'i phlant - Pablo a Iestyn - yn Waun-fawr am dymor y llynedd. Dyma Angelica a'i gŵr, Pablo Ariel Evans, yn dawnio gyda Pharti Dawns y Gaiman yn Eisteddfod y Wladfa ddiwedd Hydref.



Angelica Evans y Wladfa

GENEDIGAETHAU.

Ganwyd merch fach, Alaw, i Emma a Chris, Stad Bro Waun, chwaer a ffrind i Efa a Cadi ac wyres fach arall i Christine a Gary Davies, Hafan. Llongyfarchiadau mawr i chi.

LLONGYFARCHIADAU

mawr hefyd i John ac Irene Roberts, Pant Teg, ar enedigaeth wyres fach, Lottie Sienna Siôn, merch fach i Rhys a'i briod Louise ar Tachwedd 19, a chyfnither fach i Miri, Tŷ Pen. Maent yn byw yng nghyffiniau Llundain, tipyn o daith i taid a nain i fynd i ymweld â Lottie fach.

LLONGYFARCHIADAU

mawr i blant y pentref fu'n cystadlu yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail. Da iawn chi i gyd. Roedd Erin Ynyr yn ail yng nghystadlueaeth y Gadair. Da iawn ti.

DA IAWN hefyd, chi Aelodau'r Ysgol Sul ar eich cyfraniad yng ngwasanaeth Diolchgarwch y Capel.

LLONGYFARCHIADAU.

Ar 9 Tachwedd, ym Mhenrhiwllan, Llandysul, ganwyd merch fach, Jano Rael, i Ifan Morgan Jones a Llinos Dafydd, chwaer fach i Mari Glwys a Magw Jên. Llongyfarchiadau a phob bendith i'r teulu bach ac i Sylvia Prys, Penygraig, nain y genod bach.

LLONGYFARCHIADAU

i Nia Jones, Dwyfor, ar ennill Gradd Dosbarth Cyntaf gyda Anrhydedd ar derfyn ei chwrs nysio. Dymunwn y gorau iddi yn ei swydd.

ADREF O'R YSBYTY.

Croeso adref o'r ysbyty i Mrs Doris Roberts, Dwyrus; Mrs Grace Dawson, Stad Tref Eilian; Mr David Greasley, Minafon, a Mr Morus Elfryn, Coed Gwydryn.

Anfonwn gofion cynnes atoch a'n dymuniadau am wellhad buan.

P E N - B L W Y D D ARBENNIG.

Dymunwn ben-blwydd hapus iawn i Mr Tom H. Williams, Llwydiarth fu'n dathlu cyrraedd ei bedwar ugain oed yn ddiweddar.

CLWB 300. Enillwyr y Clwb am fis Hydref oedd: £30: Mr Jac Jones, Bodidris; £20: Mrs Grace Dawson, 3 Trefeilian; £10: Mrs Nan Roberts, Pant Afon.

SEFYDLIAD Y

MERCHED. Cynhaliwyd y Cyfarfod Blyneddol yn Festri Eglwys y Waun ar 3 Tachwedd. Croesawodd y Llywydd, Catherine Jones, Annie Thomas Gaeaf flynyddol Clwb Pêl-droed Ieuentid Waunfawr nos Lun. Roedd oddeutu

50 o blant wedi gwisgo fel ysbrydion, bwystfilod a bwanod. Enillwyr gwisg ffansi oedd: dan 7 oed - Cadi ac Ethan; dan 9 oed - Esyllt; dan 11 oed - Megan a Jac. Diolch i bawb am droi i fyny i'n cefnogi ar noson mor wyntog a gwlyb. Diolch yn arbennig i'r gwrachod am sicrhau digon o fwyd a diod i bawb.

Graham Rowlands - Ysgrifennydd CPIW

Ymweliad Addysgol o'r Archifdy.

Cafwyd bore difyr iawn yng nghwmni Mr John Dilwyn o'r Archifdy yng Nghaernarfon fore dydd Iau, y 10fed o Dachwedd. Yn y sesiwn gyntaf cafodd blwyddyn 5 a 6 gyfle i edrych ar artiffactau o gyfnod yr Ail Ryfel Byd. I ddilyn cafodd blwyddyn 3 a 4 gyflwyniad a'r gyfnod amser Fictoria. Roedd y plant a ni fel staff wedi gwirioni gweld cynlluniau pensaernïol cyntaf yr ysgol adeiladwyd yn 1876. Dyma'r tro cyntaf erioeddiddynt ddod i law. Os oes rhywun a diddordeb i weld y lluniau a'r dogfennau eraill, pleser i chwi

YSGOL WAUNFAWR

Ras Eryri. Diolch i'r pum teulu a gynorthwyodd gyda Ras Eryri ddydd Sadwrn Hydref y 29ain. Roedd hi eto y flwyddyn hon yn glawio'n drwm a rhaid oedd edmygu ymdrechion y rhedwyr o dan y fath amgylchiadau.

Carys Ofalus. Mae cynllun Carys Ofalus wedi ail ddechrau eto eleni i hybu diogelwch y ffordd gyda disgyblion blwyddyn 1. Rydym yn diolch i Mrs Gemma Hurst, mam Phoebe (sydd wedi trosglwyddo o Ysgol Garndolbenmaen), am wirfoddoli i helpu gyda'r cynllun.

Nosweithiau Rhieni. Cynhaliwyd nosweithiau rhieni drwy'r wythnos y 7fed o Dachwedd ymlaen. Diolch i bawb o'r rhieni a ddaeth i'r cyfarfodydd. Cafwyd cynrychiolaeth arbennig o dda.

Cynhaliwyd noson Calan y mis.

Digwyddiadau i ddod:

- Bydd wn yn casglu bocsys Ymgyrch y Plentyn ddydd Mercher, Tachwedd y 23ain. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu.

- Bydd blwyddyn 6 yn ymweld ag Ysgol Brynrefail ddydd Mawrth, Tachwedd y 29ain - cyfarfod rhieni i ddilyn y noson honno.

- Cynhelir ein Ffair Nadolig flynyddol yn yr ysgol nos Fercher, Rhagfyr y 7fed.

- Cinio Nadolig y plant ddydd Iau, Rhagfyr yr 8 fed.

- * Sioeau Nadolig Nos Fawrth a Nos Fercher, Rhagfyr y 13eg a'r 14eg.

- Siôn Corn - ddydd Iau Rhagfyr y 15fed.

- Ysgol yn cau dros y Nadolig - dydd Gwener, Rhagfyr yr 16eg.

ddod mewn cysylltiad â'r ysgol.

Gwasanaeth y Cadoeddiad.

Ar yr 11/11/11 am un ar ddeg o'r gloch, cynhaliwyd gwasanaeth y Cadoeddiad yn yr ysgol. Yn anffodus oherwydd gwaeledd roedd llawer o aelodau ffyddlon y gymuned yn absennol. Dymunwn wellhad buan iddynt.

DIOLCH.

Dymuna Edryd a Michelle ddiolch yn fawr i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y dymuniadau da, y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu mab bach, Rhion Wyn, yn ddiweddar.

DIOLCH.

Dymuna Tom Williams, Llwydiarth, ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am eu haelioni tuag ato ar achlysur ei ben-blwydd yn ddiweddar.

DIOLCH.

Dymuna Grace Dawson, Stad Tref Eilian, ddiolch i'w theulu, cymdogion a'i holl ffrindiau am eu caredigrwydd tuag ati yn dilyn ei llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

CYFARCHION TYMOR Y NADOLIG.

Dymuna Sarah Lewis, Stad Tref Eilian, ddymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion. Ni fydd yn anfon cardiau y flwyddyn hon.

Gan na fydd yn anfon cardiau cyfarchion y tymor eleni, dymuna Mrs Betty Griffith, Gorffwysfa, bob bendith a hapusrwydd i'w theulu a'i ffrindiau dros Wyl y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

Ymweliad Awdures. Gan fod blwyddyn 5 a 6 wedi bod yn astudio'r llyfr 'Sais ydi o, Miss' gan Brenda Wyn Jones yn ystod y tymor hwn i gyd-fynd â'n gwaith hanes ar yr Ail Ryfel Byd, gwahoddwyd yr awdures i'r ysgol i drafod ei llyfrau gyda'r plant. Byddwn yn cael cyfle i'w holi cyn diwedd yn ôl yn dilyn ei llawdriniaeth yn ddiweddar. Darllenwyd llythyr misol y Ffederasiwn gan nodi'r gweithgareddau sydd i'w cynnal yn ystod yr wythnosau nesaf. Yna cyflwynodd y Llywydd y cyfarfod i ddwylo Pat Parry, oedd yno fel Cynghorwr ar ran y Ffederasiwn.

Cafwyd yr Adroddiad Blynyddol gan Anne Williams, yr Ysgrifennydd, yna'r fantolen Ariannol gan Rose Ann Hughes, ac yn dilyn Adroddiad y Llywydd.

Yn dilyn y bleidlais, ail-etholwyd Catherine Jones fel Llywydd. Diolchodd i'r aelodau am eu hymddiriedaeth ynddi ac am bob help yr oedd wedi ei gael ganddynt yn ystod y flwyddyn. Cyfeiriodd yn arbennig at Anne a Rose am y gwaith ardderchog yr oeddynt wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn. Cytunodd yr oll o'r Is-Swyddogion a'r aelodau eraill oedd gyda swydd arbennig i gario ymlaen am flwyddyn arall. Fel arfer, roedd y Llywydd yn falch iawn mai Pat oedd yn llywio'r cyfarfod eto eleni a chyfeiriodd ati fel person oedd bob amser yn barod i helpu yn y Sefydliad yn lleol ac yn Sirol.

Y cyfarfod nesaf fydd ein Cinio Nadolig yn y Vaynol Arms ar 1 Rhagfyr. Edrychwn ymlaen yn fawr am hwn.

Mae rhaglen ddiddorol wedi ei threfnu ar gyfer 2012. Beth am ymuno â ni? Rydym yn cyfarfod am 1.30 y prynhawn yn Festri Eglwys y Waun y dydd Iau cyntaf yn y mis. Croeso cynnes i bawb.

Cefnogwch ein hysbysebwy

CLWB PÊL-DROED. Mae clwb pêl-droed ieuenctid Waunfawr wedi trefnu pnawn gyda disgo a Siôn Corn yn y dafarn rhwng 4.30 a 6 yh nos Sadwrn 17 o Ragfyr.

Hefyd, ar yr un noson mae y bandiau Scarabs a band newydd gyda hogia lleol, Night Relay, yn canu i gasglu arian i'r clwb pêl-droed. Mynediad drwy docyn yn unig. Pris £5 ar gael yn y dafarn neu cysylltwch â Graham ar 01286 650052.

CYFARCHION YR WYL. Dymuna Dic a Gwendolyn Rowlands, 5 Bryn Golau, ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am y caredigrwydd a'r cymorth maent wedi ei dderbyn drwy'r flwyddyn. Dymunant Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w cydnabod. Ni fyddant yn anfon cardiau Nadolig eleni.

MERCHED YWAWR

Cynhaliwyd ail gyfarfod y tymor nos Iau, 3 Tachwedd, yn y Ganolfan, lle cawsom y pleser o groesawu Mr Cynan Jones o Nanmor, sydd bellach wedi dod yn adnabyddus ar draws Prydain am ei fusnes llewyrchus tyfu a gwerthu madarch. Rydw i'n siŵr na fyddai neb ohonom cyn y cyfarfod wedi meddwl bod ffwng yn bwnc 'diddorol'! Ond yn wir, ar ôl gwrando ar Cynan Jones yn disgrifio sut y bu iddo ymddiddori gyntaf mewn madarch dan ddylanwad ei wraig, June, a sut y datblygodd ei weledigaeth i wneud busnes ohoni roedd ei frwdfrydedd afieithus wedi ein argyhoeddi ni i gyd fod madarch wedi'r cwbl yn destun eithriadol o ddifyr ac yn wir wedi codi awydd efallai mewn ambell wrandawr mwy anturus na' gilydd i fynd i chwilio'r caeau rhag ofn iddynt ddod ar draws rhai go flasus. Ond, er gwaethaf yr hwyl a'r afiaith,

pwysleisiodd Mr Jones fod yn rhaid deall beth oedd beth efo madarch ac nad oes fawr o wahaniaeth rhwng edrychiad ambell un bwyriadwy ac ambell un eithriadol o wenwynig. Diolch byth felly fod madarch Mr Jones ar werth yn lleol, yn Hootons, a hefyd yn y farchnad a gynhelir ar y trydydd Sadwrn ym mhob mis yn Ysgol David Hughes. Mae Cynan Jones yn cyflenwi hefyd i sawl gwesty adnabyddus, yng Nghymru a'r tu hwnt. Mae entrepreneuriaid llwyddiannus megis Mr Cynan Jones a'i wraig yn brin iawn yn y Gymru Gymraeg sydd ohoni, ac rydym yn dymuno pob llwyddiant iddynt yn y dyfodol ac yn diolch i Mr Jones am sgwrs hynod ddifyr.

Cynhelir cinio Nadolig cangen Waunfawr o Ferched y Wawr yn Nhafarn Weun nos Iau, 1 Rhagfyr. Ein gwestai fydd Mrs Jana Jones.

PRIODASAU. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i ddau bâr ifanc o'r pentref sydd wedi priodi yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i Elen Wyn a Llŷr Roberts, Bodrida, ar eu priodas. Ac hefyd Awel a Mark Jeffs, Cae Steel, ar eu priodas yng Nghapel Glanrhyd.

ADREF O'R YSBYTY. Gorfu Mrs Betty Griffith dreulio ychydig amser yn yr ysbyty yn ddiweddar ond mae hi adref erbyn hyn. Gobeithiwn eich bod yn teimlo yn well, Mrs Griffith. Anfonwn ein cofion hefyd at Mr Emsul Jones, Stad Bro Waun, wedi iddo gael triniaeth i'w lygaid yn yr ysbyty.



GERAINT OWEN
CARPEDI

CARPEDI • VINYLs • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

Siop Waunfawr

(Howard a Debbie)

Pay Point, Papur Newydd, Cardiau Cymraeg, Cylchgronau, Bwydydd, Nwyddau Tŷ

Ffôn: **(01286) 650834**

Diolch am gefnogi'r fenter newydd

ar agor **7:30 – 6:00**
8:00 – 5:30 (Sadwrn)
8:30 – 12:30 (Sul)

e-bost: siopwaunfawr@live.com

Malcolm



Malcolm surgery Llanberis

Ar ddiwedd mis Mehefin, cyflwynodd Malcolm Pitts o Lanrug sicc am £1150 i Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd, a sicc

o £500 i Feddygfa Llanberis, er cof am ei ddiweddar wraig, Yvonne, a gollodd ei bywyd i ganser y fron ar 22 Mehefin



Malcolm Sicc Alaw 2011

2006, wedi iddo feicio 50 o filltiroedd o Blas Menai i Ddeganwy ac yn ôl, hefo'i gyfaill, Darren Brame, a nofio

2500 medr. Hoffai Malcolm ddiolch o galon i bawb am eu cefnogaeth ac am fod mor hael yn ei noddi eto eleni. Diolch o galon.

MERCHED Y WAWR

Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd, Bethanne Williams a dilynwyd gyda Chân y Mudiad. Llongyfarchwyd Avril ar ddod yn nain i Rhiannon Fflur.

Argymhellir aelodau o Ferched y Wawr i gadw golwg ar adar. Fel mae cefn gwlad yn datblygu mae ein gerddi yn dod yn hollbwysig yn y rôl o roi cynhaliaeth i adar drwy roi bwyd, lloches a mannau nythu iddynt. Mae'n hanfodol ein bod yn cadw llygaid ar boblogaethau adar mewn mannau gwledig, maestrefol a threfol. Fel cangen mae'n bosibl i roi bylchau yn yr ardd a gellir cael mwy o wybodaeth ar www.bto.org/nnbw/essentials.htm

Derbyniwyd cais gan Dim Pobl Ifanc Egniol Gwynedd, Cyfadran Darparu a Hamdden, yn gofyn am

ein cymorth. Gyda'r gemau Olympaidd yn agosau mae'r tîm yn brys yn cynllunio nifer o weithgareddau gwahanol i ddathlu'r achlysur.

Buasai'r tîm yn falch o gael help gyda 'Gemau Buarth' – gemau traddodiadol a chwaraewyd dros y blynyddoedd. Os oes caneuon, rhigymau i gyd fynd efo'r gêm buasent yn falch iawn o'u derbyn. Gellir cysylltu efo Alun Jones, Rheolwr Tîm Pobl Ifanc Egniol Gwynedd ar alunjones2@gwynedd.gov.uk neu Alun Jones, Canolfan Hamdden Arfon, Ffordd Bethel, Caernarfon.

Cynhelir Bowlïo Deg Rhanbarth Arfon yn y Ffôr, nos Wener, 13 Ionawr 2012 am 6.30. Cofiwch bod cardiau Nadolig y Mudiad ar werth gan Gwenda.

Gwestai'r noson oedd Geraint Thomas, ffotograffydd proffesiynol sy'n berchen

ar Oriel Panorama yng Nghaernarfon, lle mae'n fframio lluniau a gwerthu ei ffotograffau arbennig o dirlun gogledd Cymru. Dydd Iau a Gwener, 10 ac 11 Tachwedd roedd ganddo arddangosfa yn Galeri Caernarfon ble roedd yn lansio ei lyfr Cyfrinachau Llynnoedd Eryri. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae wedi tynnu llun 132 o llynnoedd ac wedi cynnwys y chwedlau sy'n gysylltiedig â'r llynnoedd yn y lyfr. Bu'n ymweld â'r llynnoedd ym mhob tywydd ac mae ei ddawn fel ffotograffydd yn amlwg ym mhob llun. Mae tynnu llun iddo yn union fel llenor yn ysgrifennu stori. Bydd yn pendroni'n ddwys dros y llun, rhaid cael dechrau, canol a diwedd da – blaendir, canol a chefnidir - ac yna plethu'r tair elfen yn gelfydd. Treuliwyd orig ddifys iawn yn rhyfeddu at y lluniau, rhai o'r

lleoliadau yn gyfarwydd i'r rhelyw ohonom. Gweld yr enw Llyn Nadroedd ar y map a gydiodd yn ei ddychymyg ac yna Ffynnon Llyffant yn ei gyfareddu. Dyna ddechrau gwneud rhestr o'r llynnoedd a rhoi 'tic' wrth y rhai yr oedd wedi eu gweld.

Diolchwyd i Geraint am noson hynod ddifys ac addysgiadol.

Enillwyd y raffl gan Heulwen a diolchir i Meryl, Helen, Julie, Nan a Pat am wneud y baned.

Ar Ragfyr 13 byddwn yn dathlu'r Nadolig yn 'Yr Hen Lechen', Y Felinheli, a disgwylir i bawb gyrraedd erbyn 7.00 o'r gloch a bwyta am 7.30. Edrychir ymlaen am noson o gymdeithasu hwyliog.

LLONGYFARCHIADAU i Goronwy ac Eurwen Williams, Llys Ifor, ar ddathlu eu Priodas Aur ar Dachwedd 18fed. Pob dymuniad da i'r dyfodol i'r ddau ohonoch.

C Y F A R C H I O N NADOLIG.

Dymuna Mrs Megan Pritchard, Golygfa, Bryn Moelyn, anfon Cyfarchion y Nadolig at ei theulu a ffrindiau i gyd gan na fydd yn anfon cardiau Nadolig eleni.

Dymuna Mrs Naomi Griffiths, 11 Hafan Elan, hefyd anfon Cyfarchion y Tymor i'w theulu a chymdogion gan na fydd yn anfon cardiau eleni.

Dymuna Gertie ac Elen, 4 Hafan Elan, Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'w teulu, ffrindiau a chymdogion.

PROFEDIGAETHAU. Dymunwn estyn ein cydymdeimlad diffuant i'r teuluoedd canlynol:

Hefin Goronwy Jones, 37 Glanffynnon. Bu farw Menna, ei wraig, ar ôl gwaeledd byr yn 64 mlwydd oed.

Steven Owen, Isabel ac Elin Catrin, Afon Rhos. Bu farw Ifan J. Owen, tad Steven, yn 70 mlwydd oed.

Margaret a Gwynfa Pritchard, Cefn Llwyd, a'r plant yn dilyn marwolaeth mam Margaret.

Bydd colled fawr i chi oll ar eu holau.

SALWCH. Rydym yn deall fod Mrs Megan Pritchard, 3 Hafan Elan; Mrs Fisher, 7 Hafan Elan a Miss Beti

Williams, 21 Hafan Elan yn yr ysbyty. Dymunwn wellhad buan ichwi oll ac i bawb arall sydd ddim yn dda.

PWYLLGOR APÊL EISTEDDFOD YR URDD

2012 Llanrug a Chwm y glo. Trefnwyd trip i Lerpwl ar 19 Tachwedd er budd yr Apêl. Cafwyd diwrnod arbennig o lwyddiannus, pawb wedi mwynhau.

Diolch o galon am y gefnogaeth; i Derfel Owen, Bysys Rhiwlas am gael benthyg y bws ac i Mr Garem Jackson, Prifathro Ysgol Cwm y Glo am ein dreifio ni yno yn hwylus iawn. Gwnaed elw o £420 tuag at y targed o £12,000 – bron a chyrraedd erbyn hyn!

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, triapiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS



Ti a Fi Plant Cylch Ti a Fi yn mwynhau parti Calan Gaeaf. Mae'r cylch yn cyfarfod yn Festri Capel y Rhos yn ystod y tymor ysgol bob bore Gwener rhwng 9.15 a 10.45. Croeso i rieni a phlant cyn oed ysgol ddod am weithgareddau, paned a sgwrs. Arweinydd Cylch Ti a Fi, Enyd Lloyd Jones, Treflys, 11 Nant y Glyn, Llanrug, Caernarfon. LL55 4AH FFÔN: 01286 669 011

BABIS NEWYDD.

Llongyfarchiadau mawr i Nia Gwawr a Gwyn ar enedigaeth Rhiannon Fflur, chwaer fach i Llŷr ac wyres i Doug ac Avril Jones, Stad Minffordd.

Llongyfarchwn Tracey (Jacques) a Rhys ar enedigaeth Ow Rhys, brawd bachi Guto ac ŵyr newydd i Cyril a Maureen Jacques, Glanffynnon.

Ganwyd Lili Alia i Laura ac Alwyn, wyres gyntaf i Gwawr a Johnnie, 7 Llain Gro, a gorwyres arall i Mrs Katie Davies, Hafan Elan.

Llongyfarchiadau hefyd i Sian Williams, Cartref, ar ddod yn nain unwaith eto. Ganwyd merch fach, Anna, i Siôn Dafydd a'i wraig.

Pob dymuniad da a llongyfarchiadau mawr i chi i gyd.



LLONGYFARCHIADAU. Pob dymuniad da i Caryl Menai Jones, 21 Rhos Rug, ar gyrraedd lefel 'Black Belt 1st Dan' yn Karate. Mae Caryl yn perthyn i Academi John Lynn, Llanberis ers 5 mlynedd ac yn cael ei hyfforddi gan Sarah a Brent Burnam. Da iawn chdi.

CAPEL Y RHOS

Fe gadwyd Gwasanaeth Diolchgarwch bendithiol gan blant yr Ysgol Sul lle cyflwynwyd y traddodiadol a'r modern. Fe wnaethpwyd defnydd o'r wal fidio gyda'r plant yn diolch am eu doniau ac yn dangos eu talentau.

GWASANAETHAU MIS RHAGFYR

- 4: Y Gweinidog, Y Parch Marcus Wyn Robinson
- 11: Y Parch Eifion W. Williams
- 18: Y Gweinidog, Y Parch Marcus Wyn Robinson
- 22: Gwasanaeth Nadolig y Plant am 6 o'r gloch. Bydd paned a mins pei yn dilyn.
- 25: Gwasanaeth i'r teulu am 9 o'r gloch.

Sefydliad Coffa
Enillwyr Clwb Cant

- Mis Hydref
- 1 Mrs E Davies, Llys Alaw
 - 2 Wendy Owen, 23 Hafan Elan
 - 3 Wavell Roberts

Plaid Cymru
Enillwyr Clwb Cant

- Mis Tachwedd
- 1. Gwenda Roberts, Hafle
 - 2. Gwawr Morris, Llanuwchllyn



Plant Llanrug fu'n llwyddiannus iawn yn ddiweddar yn cystadlu yn Sioe Gwynedd 'Poultry Club'.

LLONGYFARCHIADAU. Roedd pawb wedi mwynhau y sioe arbennig a phawb wedi cael gwobr. Daliwch ati! Da iawn Ryan Joyce, 3ydd (Silkie), Michael Roberts, 3ydd (Pekin), Ryan Robinson, 1af (Gold Dutch), Sion Roberts, 1af (Cocco), Cara Robinson, 1af (Australope).

PÊL BONWS LOTERI Yn anffodus ni ymddangosodd canlyniadau mis Hydref yn y rhifyn diwethaf yr Eco. Felly dyma'r 8 wythnos olaf:

Medi 24: Rhif 31, Esyllt Llwyd, Y Goedlan
Hydref 1: Rhif 29: Douglas Jones, 14 Minffordd
Hydref 8: Rhif 24: Bethanne Williams, Disgwylfa
Hydref 15: Rhif 14: Evan Parry, Ceunant
Hydref 22: Rhif 1: Tomos Hopcyn Llwyd, Hafan
Hydref 29: Rhif 45: Bethanne Williams, Disgwylfa
Tachwedd 5: Rhif 43: Mair Hughes, Glasgoed
Tachwedd 12: Rhif 10: Nanw Llwyd, Y Goedlan.

Mae £1,000 wedi ei gasglu erbyn hyn a diolch diffuant i bawb sy'n cefnogi'r apel tuag at darged Llanrug a Chwm y glo.

CERIS JONES
Teglan,
Stâd Talybont
LLANRUG
677362
neu symudol
07979620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

WAVELL'S
Bryn ac Angela Williams
London House, LLANRUG
Ffôn:
(01286) 673574
PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

**MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**



SUL Y COFIO. Daeth cynulliad da o bob oedran at y Gofeb arfore Sul, 13 Tachwedd, i dalu teyrnged i'r bechgyn a roes eu bywyd trosom ni. Cymerwyd y Gwasanaeth gan y Parchedig John Pritchard a diolch iddo am ei ran Carwn ddiolch i Mr Meirion

Jones, Minafon, Clwt-y-Bont, am ei waith da yn cysylltu â phob cymdeithas yn y pentref, hefyd am ofalu am sicrhau un ar bymtheg o dorchau o Bapi Coch. Roedd yn dod â deigrin i'r llygaid gweld cynifer o blant ysgol a rhai bach yn mynd â thorch a'i gosod ar y Gofeb, a



nifer o groesau bach hefyd. Diolch hefyd i'r Seindorf Arian am eu rhan hwythau a hefyd ddiolch i'r Cynghorydd

Len Jones a Phwyllgor Gŵyl Deiniolen am lanhau a thwtio o amgylch y Gofeb. Diolch o galon i chwi i gyd a phawb a drodd allan. JW



LLONGYFARCHIADAU i Alis Jones ar ennill cystadleuaeth gwneud Mwgwd yn Llyfrgell Deiniolen dros yr haf.

C R O N F A Y M D D I R I E D O L A E T H D E I N I O L L E N

Gwahoddir ceisiadau gan fudiadau a chymdeithasau lleol am roddion ariannol o'r gronfa uchod. Dylai pob cais gynnwys mantolen ariannol gyfredol wedi ei harchwilio ac yn dangos enw llawn, cyfeiriad a rhif ffon yr archwilydd.

Dylid anfon ceisiadau i: Glyn Gruffudd, 3 Hafod, Clwt y Bont, Deiniolen, LL55 3DG
Dyddiad cau: Rhagfyr 15fed 2011



YSGOL FEITHRIN. Gwasanaeth Sul y Cofio. Rhoddwyd enwau y plant i gyd mewn het y flwyddyn yma iddynt gael cyfle i gymryd rhan yn y gwasanaeth a chynrychioli y Cylch Meithrin. Samantha Smith gafodd ei dewis o blant y bore ac Erin Frazer Jones o blant y prynhawn. Hoffwn ddiolch i'r ddwy am gymryd rhan.

Noson Tân Gwylt. Cafwyd noson lwyddiannus iawn unwaith eto y flwyddyn yma. Hoffwn, ar ran yr Ysgol Feithrin, ddiolch o galon i bawb a fynychodd y Noson yn ddiweddar. Diolch hefyd i bawb a roddodd help llaw i ni wneud y noson yn llwyddiant.



**2^or gloch DYDD SUL
RHAGFYR 18 2011
MYNYDD GWEFRU
LLANBERIS**

- ★ Seindorf Arian Deiniolen
- ★ Côr Meibion Dyffryn Peris
- ★ Parti Plant Ysgol Dolbadarn

**MYNEDIAD AM DDIM BYDD CASGLIAD TUAG AT
FEDDYGFA- LLANBERIS LLANRUG A DEINIOLLEN**



**Blodau
Lieneke**

**Blodau Priodas
Priodferch
Lleoliad • Byrddau**

Cae Rhyddau Pontrug
Caernarfon LL55 2TN

Symudol 07510 511 631

Gwefan- <http://www.blomstervill.no>
E-bost- blomstervill@robin.no

Digwyddiadau dros yr Ŵyl. Mae mudiadau yng Nghaeathro wedi trefnu'r canlynol i drigolion y fro a'u cyfeillion:

Dydd Mawrth a Dydd Mercher, 13 / 14 Rhagfyr: Cyngherddau Nadolig Ysgol Gynradd Y Bontnewydd.

Dydd Sul, 18 Rhagfyr: 5:30 – Dathliadau'r Nadolig gyda plant yr Ysgol Sul a phobl ifanc yng Nghapel Caeathro.

Dydd Llun, 19 Rhagfyr: 5:30 – Parti 'Dolig y plant iau yng Nghanolfan y Capel.

Dydd Mercher, 21 Rhagfyr: 7:00 – Canu Carolau o amgylch y coeden Nadolig gyda Seindorf Iau Llanrug, wedyn cawl cartref a chymdeithasu.

Dydd Sul, 25 Rhagfyr: 11:00 Gwasanaeth Byr o Fawl yng Nghapel Caeathro.

PRIODAS DDIEMWNT. Llongyfarchiadau mawr i Mrs a Mr Gruffydd Jones, Tremallt, ar ddathlu priodas diemwnt yn ddiweddar.

PRIODAS AUR. Dathlodd Mr a Mrs Bryn a Dilys Griffith, Delfryn, eu Priodas Aur ar 25ain o Dachwedd. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

FFEIRIAU CYFLOGI. Wrth ddarllen cyfrol 1951 o 'Amseroni (Almanac) Caergybi' roedd yn ddiddorol darllen bod dyddiadau Ffeiriau Cyflogi (gweision fferm) Y Bontnewydd ar Fai 7 a Thachwedd 9!

Cefnogwch ein hysbysebwy

NEWYDDION Y CAPEL

Cynhelir y cyfarfodydd canlynol ym mis Rhagfyr:

Sul 4 Rhagfyr – 11:00 Ysgol Sul, 2:00 Oedfa o dan ofal y Gweinidog, y Parch Marcus Wyn Robinson.

Nos Fawrth, 6 Rhagfyr – 7:00 Ffair Nadolig.

Sul 11 Rhagfyr – 11:00 Ysgol Sul.

Sul 18 Rhagfyr - 11:00 Ysgol Sul, Dathliadau'r Nadolig gyda phlant yr Ysgol Sul a phobl Ifanc yng Nghapel Caeathro a'r Gweinidog, y Parch Marcus Wyn Robinson.

Sul 25 Rhagfyr – 11:00 Oedfa Fer Bore Nadolig.

PARTI 'DOLIG Y PLANT IAU. Bydd y Parti 'Dolig ar gyfer plant o oedran ysgol gynradd ac yn iau yn y cylch am 5:30, nos Lun 19 Rhagfyr yng Nghanolfan y Capel. Disgwylir dyn tymhorol a phwysig i ymweld!

CANU CAROLAU. Ar nos Fercher, 21 Rhagfyr am 7:00 y h. Bydd Seindorf Iau Llanrug yn arwain canu carolau o amgylch y goeden Nadolig. [Pe bai'r tywydd yn anffafriol bydd y noson yng Nghanolfan y Capel.]

YSWIRIANT FUW

Hoffech chi hybu:



Bwyd lleol
Busnesau cefn gwlad
Economi wledig

Trwy gefnogi Yswiriant FUW?

Yswiriant car, ty neu unrhyw fusnes

Dafydd P Jones 01492 642683 Dwyrain Sir Gaernarfon

Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyd-destun cyfryngu yswiriant, o dan Rhif Cofrestru 308935


DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

Cydnabyddir cefnogaeth



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk



Gwasanaeth Undebol Bro'r Eco

EGLWYS SANT PADARN
LLANBERIS

Nadolig ar Lafar a Chân

yng nghwmni

Côr Meibion Dyffryn Peris
a Lleisiau Lliwedd

PRYNHAWN SUL
RHAGFYR 4^{YDD} am 5.30

Croeso Cynnes i Bawb

Lluniaeth Ysgafn i Ddilyn
Casgliad Tuag At "Cynllun Efe"

LLONGYFARCHIADAU.

Peth braf iawn yw cael llongyfarch dwy o gyn-aelodau Eglwys MC, sef Mrs Nellie Williams, Rhydfadog, -wedi dathlu ei phen-blwydd yn 95 mlwydd oed, a Mrs Pryscilla Williams, Wylfa, hithau wedi dathlu ei phen-blwydd yn 97 mlwydd oed. Bu'r ddwy yma yn hynod ffyddlon yn y capel hyd nes y bu'n rhaid cau'r capel dros un ar ddeg mlynedd yn ôl bellach. Cafodd y capel ei gau gan fod aelodau o'r Henaduriaeth yn dweud ei fod mewn cyflwr peryglus, ac os am fynd i mewn fod rhaid gwisgo het galed.

Gan i mi fod yn y capel ychydig fisoedd yn ôl cefais dipyn o fraw o weld fod nenfwd y capel yn dal i sefyll mor gadarn ac erioed! Colled fawr oedd inni golli dwy aelod mor ffyddlon, gan nad oedd yr un o'r ddwy am symud addoldy. Pwy a allai weld bai arnynt?

Gobeithio y cawn eich gweld eich dwy yn dal i fwynhau ieched ac y byddwch eich dwy

yn cael cryn dipyn o hwyl a phleser wrth edrych yn ôl i'r blynyddoedd a fu, am yr oriau y bu inni fel teulu fwynhau hefo'n gilydd yn y capel. Un peth na all yr Henaduriaeth ei gymryd oddi wrthym, gan fod yr atgofion yn felys.

Y GYSGODFAN. Yr wyf yn sicr, fel un o'r ardal, yn falch o weld y Gysgodfan wedi cael ei glanhau gan rywun neu rhywrai. Diolch yn fawr am ei gweld y lân unwaith eto ac yn bleser mynd yno i gysgodi tra yn disgwyl y bws. Mae yn anodd credu mewn oes pan y mae cymaint o sôn am ieched a diogelwch, fod y gysgodfan wedi gallu mynd i'r fath gyflwr. Unwaith eto, diolch o galon i'r sawl wnaeth y glanhau.

CWYNO. Ar hyn o bryd y mae llawer o'r ardal yn cwyno a rhai i mewn ac allan o'r ysbytai. Yr ydym fel ardal yn dymuno adferiad llwyr a buan iddynt ac y byddant yn cadw'n gynnes yn ystod y gaeaf, gan obeithio na fydd y tywydd yn rhy ddrwg.

DIOLCH. Dymuna Bryn a Helen a theulu'r ddiweddar Margaret Mary Jones, ddiolch i ffrindiau, teulu a chymdogion am y rhoddion a'r cardiau. Hefyd diolch arbennig i'r Parch Nia Williams ac i Gartref Nyrso Penisarwaun am eu gofal dros y 15 mlynedd. Diolchir hefyd i Dylan a Meinir Griffith am eu gwasanaeth trylwyr.

DYMUNA Mrs Beryl Griffiths, 5 Maes Gwylfa, ddiolch i'r doctoriaid a'r nyrso yn Uned Gofal y Galon a hefyd i staff Ysbyty Eryri am eu gofal yn dilyn triniaeth yn ddiweddar. Mae hi'n diolch o waelod calon i'w theulu a'i ffrindiau am y llu cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd yn dilyn ei salwch. Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ei ffrindiau a'i gofalywyr gyda diolch am eu cymorth a'u gofal drwy'r flwyddyn.

C Y M D E I T H A S UNDEBOL.

Croesawyd Mr Dei Tomos, Nant Peris i'r Gymdeithas Lenyddol nos Lun, 24 Hydref. Cyflwynwyd y siaradwr gan Lywydd y noson, Mrs Margaret Cynfi Griffith, a chawsom sgwrs ddiddorol iawn ganddo am Dywyswyr Eryri. Diolchwyd iddo gan y Cynghorydd Len Jones.

DYMUNA Neville a Jane Thorman ddiolch i'r plant, teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar ddathliad eu Priodas Aur yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb.

MARWOLAETH. Ar yr 17eg o Hydref, bu farw Mrs Rosalin Linden Thomas (Ross) yn Ward Alaw Ysbyty Gwynedd yn 64 mlwydd oed. Ganwyd Rosalin yn Manceinion a symudodd yn ddiweddarach i Doncaster. Symudodd y teulu yn ôl i Gymru pan oedd yn 11 mlwydd oed. Dros y blynyddoedd diweddaraf roedd yn gweithio ym Mhlas Pengwaith, Llanberis ble roedd yn aelod gwerthfawr i'r cartref gyda meddwl mawr ohoni gan y staff a'r preswylwyr. Ei phrif ddiddordeb oedd gwylio tenis ag mae'r teulu yn falch ei bod wedi cael y cyfle i ymweld â Wimbledon pan dathlodd ei phen-blwydd yn 60 oed. Roedd Rosalin yn ferch annwyl i Janet ac yn fam arbennig i Wendy, Anthony a Natasha, yn fam yng nghyfraith i Kevin a Iestyn ac yn nain gariadus i Anny, Fiona, Robart, Robin a Wiliam, yn hen nain i Nia a Jack, yn chwaer a chwaer yng nghyfraith i Keith a Menna, yn fodryb i Sara a Darren ag yn gyn wraig a ffrind i Robin. Cynhaliwyd ei hangladd o dan arweiniad y Parch Idris Thomas ar 21ain o Hydref yn Eglwys Crist Llandinorwig a rhoddwyd hi i orwedd ym mynwent yr eglwys. Y cludwyr oedd Keith, Kevin, Iestyn a Darren. Hoffai'r teulu fynegi eu gwerthfawrogiad diffuant i Dylan Griffith, Cyfarwyddwr Angladdau, Tros y Waen, Penisarwaun, am ei wasanaeth proffesiynol a chyfeillgar. Hefyd buasent yn hoffi diolch am yr holl gardiau, galwadau ffôn a rhoddion hael a gawsant tuag at Ward Alaw.

Cynnyrch a gwasanaethau priodol ar gyfer y rhai dros 50 oed

- Yswiriant Cartref
- Yswiriant Car
- Yswiriant Teithio
- Nwy a Thrydan
- Larymau Personol
- Cynlluniau Angladdau



Am bris heb rwymedigaeth, ewch i:

Age Concern Gwynedd a Mon
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon LL55 2YD
Ffôn: **01286 678310**
(ar agor 9am-5pm Mon to Fri)

Neu ffoniwch **0800 085 3741** neu ewch i
www.ageuk.org.uk/products

AGE
Concern

Age UK

Darperir yswiriant cartref, car a theithio gan Yswiriant Ageas Cyfyngedig.
Darperir Nwy a Thrydan gan E.ON Energy Solutions Cyfyngedig.
Age UK yw nod masnach Age UK (Elusen rhif 1128267). Defnyddir enw a logo Age UK o dan gytundeb trwydded rhwng Age UK ac Age UK Enterprises Limited, sef eu cangen gwasanaethau masnachol. Rhoddir yr elw net i Age UK. Age UK Enterprises Limited, Linhay House, Ashburton, Devon TQ13 7UP. ID9975 11/10 MP2430V2APR11 SL031616_11_1



J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

YSGOL GYMUNED

Urdd. Cynhelir y cyfarfodydd ar nos Lun ar yn ail â Champau'r Ddraig.

Ymweliad Addysgol. Treuliodd plant dosbarth y Babanod ddiwrnod yn Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy dydd Llun, 14 Tachwedd. Cawsant gyfle i fod yn rhan o ddosbarth ysgol yn yr Oes Fictoraidd ynghyd â gwahanol weithgareddau eraill. Roedd pawb wedi mwynhau'r diwrnod.



Plant y Dosbarth Babanod yn Amgueddfa Lloyd George, Llanystumdwy.

PWYLLGOR NEUADD.

Tynnwyd Clwb Cant Tachwedd a'r enillwyr oedd: Katy Williams a Wendy Philips.

Bu'r Noson Calan Gaeaf yn hynod lwyddiannus eleni gyda phob plentyn bron wedi gwisgo i fyny a nifer o rieni hefyd. Roedd yr arddangosfa o fygydau, swynion a theisennau Calan Gaeaf yn wledd i'r llygaid. Bu'n dasg anodd tu hwnt i'r beirniad, Mair Huws, a diolchir iddi am ei geiriau caredig i bob plentyn bach a mawr. Diolch hefyd i Glesni, Tania a Sophie am ofalu am y Disgo - fe fwynhaodd y plant lleiaf y dawnsio'n arw iawn.

Gobeithir cynnal Noson Santes Dwynwen yn Ionawr gyda chyfle i wisgo i fyny eto a chreu cardiau serch ac addurno teisennau.

Nos Fercher, 14 Rhagfyr. Cynhelir Noson Wasael gydag eitemau gan blant yr ysgol, aelodau o'r Pwyllgor a ffrindiau ffyddlon Band Arian Deiniolen. Bydd cyfle i



Penisarwaun calan gaeaf

ddathlu'r Nadolig drwy ganu'r Hen Garolau a blasu pwnsh poeth a mins pei.

YSGOL SUL BOSRA. Braf oedd cael ymuno ag aelodau Eglwys Santes Helen i ddathlu Gŵyl o Ddiolchgarwch a diolchir i'r Ficer, y Parch Lloyd Jones, am ei anerchiad bywiog i'r plant.

Ar Sul y Cofio, cafwyd gwasanaeth yn Bosra am 10 y bore a chofwyd am y bechgyn, Elfed a Charles Jones, Arthur Terrace, (dau frawd i Arnold Jones) ynghyd â Griffith J. Williams, Coed Parc, tri a syrthiodd yn Rhyfel 1939-45. Am 10.45 fe ymunodd yr Ysgol

Sul, ynghyd â rhieni'r plant, ac aelodau Eglwys Santes Helen ac am 11.00 cafwyd dau funud o dawelwch o flaen y Gofeb sydd wrth borth yr Eglwys. Cafodd y plant groes fach bren gyda'r pabi coch arni i'w gosod ar y Gofeb. Bu'n brofiad cofiadwy iawn i'r plant i gyd.

Llun

Ianto a Catrin wrth Gofeb Capel Bosra yn cofio am Elfed a Charles, brodyr i'w taid, Arnold Jones.

Gobeithir ymuno eto ag aelodau'r Eglwys i ddathlu'r Nadolig.

Oherwydd ffyddlondeb y plant i'r Ysgol Sul bydd Fiona yn trefnu trip ar Drên Bach Llyn Padarn cyn y Nadolig a bydd cyfle i'r plant gael cyfarfod Siôn Corn.

CYLCH TI A FI. Mae criw ifanc iawn wedi cyfarfod yn wythnosol yn y Neuadd Gymuned bob pŵn dydd Iau rhwng 1.30 a 3.00 - oddeutu 20 o blant bach yn mwynhau cymdeithasu â' gilydd. Mae croeso mawr iawn i famau, tadau, neiniau a theidiau a gwarchodwyr gyda phlant o dan oed ysgol ymuno am baned a sgwrs bob pŵn Iau rhwng 1.30 a 3.00. Felly dowch atom yn 2012. Cysyllter â Katy Williams ar y rhif ffôn 870224.



Alun Ffred Jones

Aelod Cynulliad Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth

8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076

neu

70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR

01248- 372948

alunffred.jones@cymru.gov.uk



Ianto a Catrin wrth Gofeb Capel Bosra yn cofio am Elfed a Charles, brodyr i'w taid Arnold Jones.

SMALA
www.smala.net

2,000
o gardiau
busnes
lliw
llawn

£80 + TAW

01286 660 364
07887 654 251



BEICS MENAI

SÊL NADOLIG

BEICS NEWYDD ac OFFER BEICIO
AR GYFER OEDOLION A PHLANT



"POWABYKE" TRYDAN
Newydd ac Ail-law

Claud Butler • Dawes

**AM
BRIS
CALL!**

(01286) 676804 neu 07770951007

BEICS MENAI 1 Cei Llechi Caernarfon

e/bost- hire@beicsmenai.co.uk

**WRTH Y
CASTELL**

Ymgynghir Plentyn y Nadolig. Casglwyd 20 o focsys o'r ysgol dydd Mercher, 23 Tachwedd. Roeddynt yn llawn o anrhegion i'w hanfon i blant llai ffodus. Diolch i'r rhai a fu'n brysur yn paratoi'r bocsys.

Noson Agored. Cynhaliwyd noson agored i'r rhieni gael cyfle i edrych ar waith eu plant ar ddydd Mawrth, 15 Tachwedd.

Diwrnod yn Ysgol Brynrefail. Bydd Bl6 yn cael cyfle i dreulio diwrnod yn Ysgol Brynrefail ar ddydd Llun, 5 Rhagfyr.

Cyngerdd Nadolig. Cynhelir y cyngerdd eleni ddydd Iau, 8 Rhagfyr. Bydd y Côr Cymuned, sydd yn cynnwys disgyblion yr ysgol a chyn-ddisgyblion yn cymryd rhan, yn ogystal ag eitemau gan weddill disgyblion yr ysgol. Bydd perfformiad am 1.30 y pnawn a 6.00 yr hwyr. Bydd yn bosib prynu tocynnau o'r ysgol am £3.50 i oedolion a £2 i bensiynwyr a phlant ysgol uwchradd (sydd ddim yn rhan o'r cyngerdd). Croeso cynnes i bawb.

Ffair Nadolig. Cynhelir y Ffair yn yr ysgol nos Fawrth, 13 Rhagfyr am 6 o'r gloch. Bydd amryw o stondinau a gobeithiwn y bydd Siôn Corn yn galw heibio.

Cinio Nadolig. Bydd Anti Carolyn yn paratoi'r cinio Nadolig ddydd Mercher, 14 Rhagfyr. Mae cyfle i'r plant Meithrin ymuno â ni yn ogystal â'r plant sydd yn arfer cael pecyn bwyd.

Pantomeim. Byddwn yn mynd i Neuadd John Phillips

ym Mangor fore dydd Iau, 15 Rhagfyr, i weld cynhyrchiad Cwmni Mega o'r Pantomeim 'Madog'.

Adloniant yn y Gymuned. Bydd rhai o blant yr ysgol yn ymweld â Chartref Nyrsio Penisarwaun bnawn dydd Iau, 15 Rhagfyr, i ddiddori'r preswylwyr gyda gwahanol eitemau Nadoligaidd.

Gwyliau Nadolig. Bydd yr ysgol yn cau ddydd Gwener, 16 Rhagfyr ac yn ailagor i'r plant ddydd Mercher, 4 Ionawr.

Adran yr Urdd. Bu rhai aelodau o'r Urdd yn y Gala Nofio ym Mangor. Fe fwynhaodd pawb y profiad o gystadlu a diolch i Kim am y trefniadau trylwyr.

LLONGYFARCHIADAU. Rydym fel pentref yn ymfalchio yn llwyddiannau tri disgybl fu'n hynod lwyddiannus yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail. Llongyfarchiadau eto eleni i William Lamb am ennill y mwyaf o farciau ymlaen llaw. Llongyfarchiadau i tithau, Mared Jones, am ddisgleirio yn Ffrangeg a chipio'r tlws. Mae Magi Tudur yn dangos ei doniau yn fuan yn yr ysgol - hi gipiodd y tlws am fwyaf o farciau ym mlwyddyn 7. Pob dymuniad da eto i'r dyfodol.

GWELLHAD. Braf clywed y newyddion da fod Ann Paterson bellach wedi cael dod adref o Ysbyty Gwynedd wedi ei gwaeldd mawr. Anfonwn ein cofion anwylaf atat, Ann, a dymunwn lwyr wellhad iti erbyn y Nadolig.

CRONFA PENSIYNWYR.

Pêl Bonws Loteri. Enillydd mis Hydref oedd Mrs Peggy

Mathews gyda Rhif 45. Llongyfarchiadau.

Cinio Nadolig y Pensiynwyr. Eleni byddwn yn mynd i westy'r Buckley ym Miwmares ar ddydd Sadwrn, 10 Rhagfyr. Bydd y bws yn cychwyn am 11.15 o'r gloch a bydd cyfle i wneud ychydig o siopa yn Pringles ar ôl y cinio.

DATHLU PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Marc Jones, 16 Bryn Tirion ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar. Pob bendith oddi wrth y teulu i gyd.

P E N - B L W Y D D ARBENNIG. Yn ddiweddar dathlodd Kate Rosser, Llys y Gwynt, ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed. Llongyfarchiadau mawr oddi wrth y teulu a phawb yn y pentref a thrigolion Rhiwlas.

CYLCH TI A FI. Mae criw ifanc iawn wedi cyfarfod yn wythnosol yn y Neuadd Gymuned bob pnawn dydd Iau rhwng 1.30 a 3.00 - oddeutu 20 o blant bach yn mwynhau cymdeithasu â' gilydd. Mae croeso mawr iawn i famau, tadau, neiniau a theidiau a gwarchodwyr gyda phlant o dan oed ysgol ymuno am baned a sgwrs bob pnawn Iau rhwng 1.30 a 3.00. Felly dowch atom yn 2012. Cysyllter â Katy Williams ar y rhif ffôn 870224.

RHODD WERTHFAWR. Wedi blynyddoedd o warchod cenedlaethau o blant y mae Alison (Ali) bellach yn rhoi ei sylw i Cara Ann, merch fach a anwyd iddi hi a Chris (Sirch), Allt Riwth. Llongyfarchiadau a phob bendith i chwi fel teulu.

CHWYTHWYR O FRI. Llongyfarchiadau i Twm Herd

ar gael ei ddewis yn aelod o Fand Ifanc Gwynedd. Braf deall fod Twm, Ianto a Jordan yn mwynhau eu hunain fel aelodau o Fand Ifanc Deiniolen

D Y M U N I A D A U NADOLIG. Dymuna Pat ac Arnold Jones Nadolig Dedwydd a Blwyddyn newydd Dda i bawb. Ni fyddant yn anfon cardiau eleni ond yn hytrach yn anfon rhodd i Ambiwlans Awyr Cymru.

DIOLCH. Dymuna Ann Paterson ddiolch yn ddiffuant i Dave, Berwyn, Andrea ei mam a'i chwaer Elen a'r teulu oll am eu gofal tyner ohoni ar adeg o bryder mawr iddynt. Diolch i bawb am y llu cardiau, galwadau ffôn, ymweliadau a rhoddion a fu o gysur iddi ac yn hwb fawr i wella.

C Y F A R C H I O N NADOLIG. Dymuna Myra Griffith, Crud yr Awen, Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'w chyfeillion ym Mhenisarwaun a Bethel gan na fydd yn anfon negeseuon personol eleni.



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG


Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901



Ffair Nadolig
STRYD FAWR LLANBERIS
6 o'r gloch Nos Iau Rhagfyr 15

❄️ GOLEUADAU'R GOEDEN NADOLIG YMLAEN
❄️ TAITH LAMP o'r GANOLFAN am 6 o'r gloch
❄️ SAMBA BAND ❄️ CANU CAROLAU
❄️ Sion Corn Yn Bresennol gyda chymorth y "Bwrdd Crwn"
❄️ STONDINAU CŴN POETH • BBQ
❄️ TOMBOLA • CREFFTAU

**AM FWY O WYBODAETH-
FFONIWCH "KATY"- 07956557675**



CD Newydd Wil Tân
Gwlith y Mynydd
allan mis Tachwedd!



hefyd **CD Newydd Dewi Pws**
Geirïe yn y Niwl
allan dechrau Rhagfyr!

www.fflach.co.uk

Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru. Bu Gwawr yma o'r Gwasanaeth Tân yn rhoi sgwrs i flwyddyn 1 + 4 ar ddiogelwch tân i flynyddoedd 1 a 4. Bydd Gwawr hefyd yn rhoi cyflwyniad i blant yr Urdd cyn bo hir.

Rimbojam Yr Urdd. Bu Blwyddyn 3 + 4 yn ysgol Brynrefail er mwyn canu rhai o ganeuon Rimbojam yr Urdd - roedd pawb wedi creu pyped llaw i fynd gyda nhw. Mae sesiynau yr Urdd wedi cychwyn yn dda a'r plant wedi mwynhau eu sesiynau Mistar Urdd a Bingo yn ddiweddar.

Llythrennedd Ffilm. Bu Plant blwyddyn 6 yn ran o sesiwn Llythrennedd ffilm gydag Eilir Evans yn ddiweddar. Sesiwn wedi ei drefnu gan y Galeri yn cyflwyno agweddau o sgriptio a ffilmio.

LLONGYFARCHIADAU i Caryl Wyn Williams ar dderbyn gradd mewn Cyfiawnder Troseddol o Brifysgol Casnewydd. Derbyniodd Caryl radd B.A. Anrhydedd mewn Troseddeg a Chyfiawnder yn 2007 ym Mhrifysgol Bangor. Yna enillodd Ysgoloriaeth i astudio Gradd M.A. mewn Troseddeg Gymharol a Chyfiawnder a graddiodd yn 2009. Mae Caryl bellach wedi sicrhau swydd barhaol gyda Gwasanaeth Prawf Cymru yng Nghaernarfon.

DYMUNA Trefor a Heulwen ddiolch o waelod calon i bawb am yr holl gefnogaeth a'r cydymdeimlad diffuant a dderbyniwyd wedi'r brofedigaeth lem o golli mab annwyl iawn, Kevin, mor ddisymwth.

Diolch arbennig i'r teulu, cymdogion a ffrindiau ac am y rhoddion hael tuag at Ambiwylans Awyr Cymru.

RAFFL PENTREFI LLANBERIS A NANT PERIS ER BUDD WARD ALAW YSBYTY GWYNEDD. Mae'r trefnydd yn diolch o galon i'r busnesau lleol am roi'r gwobrwyon, ac i'r gymuned leol am gefnogi'r achos. Fe lwyddodd y Raffl i godi'r swm anrhydeddus iawn o £1,147 tuag at Ward Alaw. Diolch arbennig i Dr R. Parry, Mrs A. Parry a Mr a Mrs Tony Sage am eu cefnogaeth.

DIOLCH. Dymuna Hefina Jones, Blaen Ddôl, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau oll am eu caredigrwydd tuag ati yn dilyn ei llawdriniaeth yn ddiweddar.

C Y M D E I T H A S UNDEBOL - CANU CAROLAU. Bydd y cyfarfod nesaf o dan nawdd Y Gymdeithas ar nos Fawrth, Rhagfyr y 6ed, am 7yh yn Ffestri Capel Coch. Cawn noson o ganu Carolau a darlleniadau yng nghwmni Côr Lleisiau Lliwedd. Llywydd y

noson fydd Y Parchedig John Pritchard. Dewch i ganu, cael paned a mins pei ac i ddathlu Gŵyl y Geni. Mae'r noson yn agored i bawb, dewch yn llu!

SUL Y COFIO. Diolch i Dr William Munro, Mr Emerson Hughes a Mr Derek Jones am eu cyfraniad tuag at wasanaeth parchus a gweddus yn Eglwys Sant Padarn, ac wrth Y Gofeb, ar y Sul arbennig yma. Diolch yn fawr.

DIOLCHIADAU. Dymuna Betty, Steven, Isabel, Elin a theulu'r diweddar Ifan Jeffrey Owen, ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau, llythyrau a'r negeseuon a dderbyniwyd yn eu profedigaeth ddiweddar. Diolch am y rhoddion hael o £2,200 a dderbyniwyd, er cof, tuag at Sefydliad Prydeinig Y Galon, Ymchwil Cancr Ward Alaw, Tŷ Gobaith a Meddygfa Llanberis. Diolch arbennig i'r Parchedig John Pritchard ac i E.W. Pritchard, Trefnwyr Angladdau, am eu trefniadau trylwyr a charedig. Diolch yn fawr iawn.

LLONGYFARCHIADAU. Llongyfarchiadau i Stephen a Mefys 6, Stad Wern Gethin, Llanfairpwll, Sir Fôn ar enedigaeth merch, Nel Grug, chwaer fach i Cain Dafydd, wyres i Gwen ac Oliver, Llanberis, ac i Ann a Dafydd Fôn, Gerlan, Bethesda.

CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS. Diolch i'r pentrefwyr fu'n cefnogi

Bingo er lles y Côr yng Ngwesty Dolbadarn ar y 4ydd o Dachwedd.

Cafodd y Côr ganmoliaeth fawr yn dilyn eu cyngerdd ar y 18fed o Dachwedd yn Rhoshirwaun, Pen Llŷn.

Yn ystod mis Rhagfyr bydd y Côr yn cymryd rhan mewn nifer o achosion a chyngherddau. Ar y 4ydd maent yn Eglwys Llanberis; ar y 9fed yng Ngwesty Penlan, Pwllheli; yn ymweld â Plas Pengwaith a Plas Garnedd ar y 12fed ac, i orffen y flwyddyn, cyngerdd yn Oriel Llanberis ar y 18fed.

CAPEL COCH
Oedfa Adfent: Cynhelir Oedfa Adfent am 10.00 o'r gloch ddydd Sul, Rhagfyr 4.

MOLI: Cynhelir Oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch nos Sul, Rhagfyr 11 dan arweiniad arweinyddion CIC. Mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno â ni yn yr oedfa wahanol hon a gynhelir ar yr ail nos Sul o bob mis.

Gwasanaethau Nadolig yr Ysgol Sul:
Cynhelir gwasanaeth Nadolig y plant am 5.30 o'r gloch nos Sul, Rhagfyr 18. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni.

Bore Nadolig: Cynhelir Oedfa Gymun am 10.00 o'r gloch fore'r Nadolig, ddydd Sul, Rhagfyr 25.

Ysbyty Gwynedd

Mer Betty Williams, Talysarn cyn AS Conwy a Mr Cledwyn Jones, un o'r enwog Driawd y Coleg yn enedigol o Dalysarn a bellach yn byw ym Mangor. Roeddent yn sgwrsio gyda Sharon Vaughan Williams sydd yn y gwaith ers mis Ionawr. Yn y llun hefyd mae Alan Parry o Ddeiniolen sydd yno ers blynnyddoedd lawer. Gobeithio fod y cleifion wedi mwynhau gwrando arnynt yn hel atgofion a diolch am y gwasanaeth gwerthfawr hwn.



Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn

Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255

Ar ben arall i'r lein



Aeth tymor arall heibio ac er yr holl broblemau sy'n cael eu hachosi gan lygredd Llyn Padarn mae'n rhaid edrych ymlaen gydag agwedd bositif am y dyfodol.

Rydym fel cymdeithas yn dal i bwyso ar Dŵr Cymru i egluro beth yw eu bwriad wrth ymateb i argymhellion adroddiad Asiantaeth yr Amgylchedd i'r problemau. Un peth sy'n fawr syndod i mi yw'r ffaith nad oes gan yr Asiantaeth y pwerau i orfodi'r cwmni dŵr i weithredu. Fodd bynnag, does dim byd mwy sicr, os na fydd gweithredu buan yna bydd diwedd ar Lyn

Padarn fel unrhyw atyniad at fudd y fro. Drwy synhwyro rhywsut y bydd llusgo traed eto gan y cwmni dŵr, rydym yn ceisio trefnu cyfarfod gydag awdurdodau cysylltiedig i geisio cael rhaglen waith fuan ac amserlen lem i gwblhau'r gwaith angenrheidiol.

Ar ymweliad ddiweddar ag Ysgol Bethel nodais â diddordeb ddywediad ar boster yno:

'Pan mae'r goeden olaf wedi ei thorri i lawr,

Pan mae'r afon olaf wedi ei llygru,

Pan mae'r pysgodyn olaf wedi ei ddal,

Yna bydd pawb yn sylweddoli nad yw'n bosib bwyta arian.'

Er hyn i gyd, mae lle i ganmol ein llynnoedd gwyllt sef Cwellyn, Nantlle, Dywarchen, Cwm Silyn a Cwm Dwythwch - mae rhain wedi 'sgota'n ardderchog. Ond be sy'n rhaid



Stocio Eogiaid bach i'r Afon Arddu yn Cwm Brwynog.

ei nodi yw fod y dyfroedd yma i gyd yn uwch na'r un ffynhonnell o arllwysiad carthffos, heblaw Cwellyn hynny ydi, wrth gwrs. Ond rhaid nodi fod gwaith aruthrol wedi ei wneud yn ardal Rhyd Ddu a Betws Garmon i adfer y sefyllfa yn sgil y salwch a ddaeth drwy yfed dŵr llygredig o'r llyn.

Fel cadarnhad fod pethau yn gwaethygu ym myd y pysg - eleni 31 eog sydd wedi eu glanio, wyth wedi eu cadw i'r badell, 9 wedi eu casglu a'u cludo i ddeorfa'r Asiantaeth yn Nolgellau. Rhoddwyd y gweddill yn ôl yn yr afon.

O'r eogiaid yn Nolgellau bydd oddeutu 20,000 o wyau ar gael i'w casglu, gyda 2,000 yn dod yn ôl i ddeorfa Crawia i'w prifio. Bydd y gweddill yn cael eu deori yn Nolgellau a'u cludo'n ôl i'w rhyddhau yn ystod haf 2012 yn yr Arddu a'r

Hwch. Lleoliadau sydd ymhell o unrhyw lygredd dynol. Yn ôl pob golwg mae y rhai a ollyngwyd eleni yn prifio'n ardderchog.

Os oes unrhyw ysgol yn y fro eisau gweld ein cynllun magu yn Crawia yna mae croeso iddynt ymweld. Mi fuasai'r disgyblion wrth eu bodd yn gweld y fath ryfeddod.

Gobeithio y bydd yn bosib cynnal Arwerthiant celfi pysgota unwaith eto yn fuan yn y flwyddyn newydd, felly os oes unrhyw un gyda gêr 'sgota i'w werthu, cysylltwch â mi, neu unrhyw aelod o'r Pwyllgor gwaith.

Cynhelir Pwyllgor Blynnyddol y Gymdeithas yn yr Institiwt, Caernarfon am 7.00 nos Iau, 8ed Rhagfyr. Gobeithio y gwnaiff yr holl aelodau wneud ymdrech i bresenoli eu hunain.

Huw Price Hughes

Llyfrau Llafar Cymru

Cynllun cyffrous i ddarparu ar gyfer y deillion

Wedi misoedd o ansicrwydd, cafodd cynllun i baratoi llyfrau llafar i'r deillion, y rhannol ddall a'r sawl sy'n methu darllen print, ei achub gan Lywodraeth Cymru. Llyfrau Llafar Cymru yw enw newydd y gwasanaeth a gychwynnwyd yn wreiddiol fel cynllun casetiau i'r deillion gan Rhian Evans o Gaerfyrddin dros 30 mlynedd yn ôl. Bydd y gwasanaeth yn cael ei reoli gan grŵp bychan yng ngorllewin Cymru.

Er 1989, gweinyddwyd yr hen gynllun gan Gymdeithas y Deillion Gogledd Cymru. Ond gan fod y gymdeithas yn wynebu trafferthion ariannol roedd bygythiad i gau canolfan Caerfyrddin, diswyddo dau o staff a symud catalog o ddwy fil o 'lyfrau' Cymraeg a rhai Saesneg yn ymwneud â Chymru i'r ganolfan ym Mangor.

'Byddai hynny wedi bod yn golled aruthrol i dre Caerfyrddin, ac y negyddu'r gwaith mawr a wnaed yma dros y blynnyddoedd gan Rhian ac eraill i baratoi deunydd o safon. Mae'r catalog ynddo'i hun yn werthfawr, yn ddiwylliannol ac, wrth gwrs, fel cyfraniad sylweddol iawn i helpu pobl llai ffodus na ni,' meddai cadeirydd y grŵp newydd, Sulwyn Thomas. 'Y llynedd danfonwyd 4,000 o deitlau i ryw 400 o gwsmeriaid. Byddai colli'r adnodd hwn wedi bod yn drasiedi mewn mwy nac un ystyr. Dyna pam yr ydym mor ddyledus i Lywodraeth Cymru am ddod i'r adwy a chyfrannu £35,000 tuag at ailsefydlu'r gwasanaeth a rhoi sialens i ni ymestyn a datblygu.'

Mae 'na waith mawr i'w wneud,' meddai Rhian Evans, yr isgadeirydd. 'Unwaith yn unig y gallwn ddisgwyl grant gan Lywodraeth Cymru ac rydym yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth

hael, ond mae'n rhaid i ni ganfod arian ein hunain i sicrhau dyfodol diogel i'r prosiect. Rydym yn anfon llythyrau apêl at wahanol grwpiau a fyddai â diddordeb, yn chwilio am fwy o wrandawyr, ac yn gosod nod i ni ein hunain i gyrraedd 700 o gwsmeriaid erbyn mis Medi 2012.'

Bydd Llyfrau Llafar Cymru yn cael ei lansio yn swyddogol ym mis Ionawr 2012 yn y Senedd ym Mae Caerdydd. Bydd hyn yn gyfle i ddiolch i weinidogion a fu'n allweddol yn sicrhau y grant i ni,' meddai Sulwyn Thomas. 'Pobl fel Edwina Hart, Gwenda Thomas ac Alun Ffred Jones yn y Lywodraeth ddiwethaf. Fe fydd hefyd yn gyfle i hysbysebu ac i hybu'r gwaith ymhellach ymhlith gweinidogion y Lywodraeth bresennol, yn ogystal â diolch i lawer o bartneriaid, megis Cyngor Deillion Cymru, a fu'n gymorth i'n rhoi ar ben ffordd. 'Mae hwn yn wasanaeth i

Gymru gyfan, gwasanaeth sydd wedi rhoi pleser a mwynhad i gannoedd ar gannoedd ar hyd y blynnyddoedd. Yr her i ni nawr yw ei gadw i'r miloedd a allai elwa yn y dyfodol.'

Er na chyhoeddwyd aileni'r cynllun yn swyddogol, mae pobl eisoes wedi ymateb. Codwyd £1,000 mewn garddwest, £1,000 arall gan gôr Seingar, a chyfrannwyd £200 o goffrau Clwb Cinio Caerfyrddin. Mae cynllun cyhoeddus rwydd ar waith hefyd i hybu'r gwasanaeth. Eisoes mae Gwasg Gwynedd wedi cytuno i'r Llyfrau Llafar fynd ar daith i recordio rhai a gyfrannodd i'w cyfrol newydd, Taid/Tad-cu.

Am fanylion pellach, cysyllter â Sulwyn Thomas (01267 235385, 07778435765); Linda Williams (01286 238225); Rhian Evans (01267 235195)

PÂR SAFF O DDWYLO

Syfrdanwyd yr ardal yn ddiweddar gyda marwolaeth disymwth Ifan Owen, neu Ifan Jeff i bawb. Fel ceidwad y gôl y cofir Ifan i'w annwyl Llanbêr. Rhoddodd flynyddoedd o wasanaeth i'r Darans ac ef oedd y gôl-geidwad yn ystod yr 'oes aur' yn ystod y chwe degau. Enillodd pob un o dlysau'r Gynghrair ac hefyd prif dlysau yr Arfordir yn ystod ei yrfa. A sôn am dlysau. Rwy'n siŵr mai brawd yng nghyfraith Ifan, sef Gwilym Williams – Gwil Bach – sy'n dal y record am y nifer fwyaf o dlysau i'r clwb, os nad yn hanes y Gynghrair. Dywedodd deryn bach wrthyf fod Gwil wedi sgorio tair gôl i Mountain Rangers yn erbyn Ifan un tro. Siŵr fod yna dynnu coes wedi'r gêm honno!

Nid oedd Ifan ymysg y talaf o gôl-geidwaid ond yn sicr roedd ymysg y dewraf. Taflai ei hun yn aml 'ble mae'n brifo', ac roedd yn un anodd i'w guro mewn sefyllfa 'un i un'. Roedd ganddo lais awdurdodol a dwrn cryf, ac roedd perthynas ryfeddol rhwng cefnwyr selog y Darans yr adeg hynny. Yn y tymor rhyfeddol hwnnw yn 1964-65, ble enillodd Llanbêr bob dim ond y Gynghrair, gwerth nodi mai dim ond 19 gôl a ildwyd mewn 24 gêm gynghrair. Tipyn o ystadegyn!

Ar adeg fel hyn, mae'n siŵr fod nifer o gydchwaraewyr yn cofio ambell gêm, ambell save a sawl stori. Un cystadleuol fu Ifan, ond un a chwaraeodd â gwên ar ei wyneb. Heddwch i'w lwch.

MIS SIMSAN

Dyna fu'r hanes i'n clybiau pêl-droed lleol. Trist iawn yw cofnodi rhediad arswydus Bethel sy'n dal i chwilio am eu pwynt cyntaf. Tîm ifanc iawn sydd yno, ac ysgol ddrud yw ysgol brofiad. Gobeithio y deil yr ysbryd, cael arweiniad pendant, ac ail danio'r fflam. Gyda chyn gymaint o glybiau lleol anodd fydd denu chwaraewyr.

Yr un yw'r stori draw yn

Llanberis. Wedi dechrau da i'r tymor mae'r rhod wedi troi yno hefyd. Yn ffodus gemau cwpan yw'r mwyafrif o'r gemau diweddaraf. Gobeithio y cânt ail-wynt i gynnal eu safle yn yr adran.

Hofran uwch y gwaelodion mae Llanrug hefyd, ond maent yn tanio yn yr F.A. Trophy. Cafwyd buddugoliaeth gampus ar Eithin Duon o 4-2 yn erbyn Chirk AAA. Ymlaen

YDY'R CYFRYNGAU YN DARLLEN YRECO?

Roedd y rhaglen 'Byd ar Bedwar' yn ddiweddar yn canolbwyntio ar bwynt a drafodwyd yn y golofn chwaraeon y mis diwethaf. Lle mae gwir deyrngarwch 'cefnogaeth' gwylwyr pêl-droed Cymru? Cafwyd canlyniadau diddorol ar lefel cenedlaethol. Abertawe yw'r tîm mwyaf poblogaidd yng Nghymru. Y mae y 'clwb' yn bwysicach na'r tîm cenedlaethol, meddai'r mwyafrif.

Bu'r camerâu yn y Bedol yn ystod gêm Abertawe v Man. U. Soniwyd mai peth 'cenedlaethol' yn yr ystyr 'gwladgarol' yw cefnogi elfennau Cymreig y gêm.

Beth yw cefnogi? Eistedd o flaen y bocs yn gwylio 'ein tîm';

mynd i'w gemau; traddodiad; atgasedd at dîm arall...?

Yr wyf i'n credu fod y rhod yn troi ac fe ddaw mwy o ddatganoli cefnogaeth tuag at y timau Cymreig. Rhoddaf dair enghraifft y bûm ynddynt yn ddiweddar.

- Caernarfon v Llanrug ar yr Oval. Torf o 500+.

- Arytraeth ym Mhorthmadog yn gwylio Cymru dan 16 yn trechu Gogledd Iwerddon. Torf 2000+.

- Bangor yn trechu y Seintiau mewn chwip o gêm. Torf o 750 (siomedig o isel) ond tua 500 wedi teithio o Fangor.

Tybed, fel y dywedodd un o chwaraewyr Gweriniaeth Iwerddon yn ddiweddar, mewn amser o ddirwasgiad trwm mai o'r meysydd chwarae y daw elfen i godi calonnau. Synnwn i ddim!

iawn yno yn amlwg. Tybed a welwn ni Bethel a'r Waun yn newid safleoedd cynghreiriol y tymor nesaf. Amser a ddengys. Rhyfeddol mai dim ond tair gêm gynghrair mae Llanbabo wedi ei chwarae. Bydd cryn ddali i'fyny. Gobeithio na chawn aeaf fel llynedd, neu bydd y tymor yn parhau am fisoedd.

Rhedeg Traws-Gwlad

Llongyfarchiadau i Arwel Lewis, Bethel a Maggie Oliver, Dinorwig, ar gael eu dewis i gynrychioli Cymru ym Mhencampwriaeth Traws-gwlad Rhedwyr Hŷn Prydain ac Iwerddon yn Glasgow ddiwedd Tachwedd.

Ras Penmaenmawr

Daeth bron i ddau gant o redwyr i rasio ar yr ucheldir o'r Foel Lus draw am Dal y Fan ac yn ôl. Tirwedd garw, ond tywydd llawer mwy ffafrïol na'r hyn gafwyd dros y blynyddoedd diwethaf. Daeth Dylan W. Jones (Deiniolen gynt) yn chweched, a Sarah

Ridgway, Nant Peris, yn ferch gyntaf. Roedd Ashley Wager, Brynrefail a Chris Forrest, Ceunant, yn bedwerydd a phumed dros 50 oed.

Hanner Marathon Conwy

Tywydd tyner a mymryn o avel yn unig i'r rhai fu'n herio'r cwrs o amgylch y Gogarth. Mil a hanner o redwyr yn cychwyn o gysgod castell Conwy, a'r fro hon â chynrychiolaeth dda iawn yn eu plith. Arwel Lewis, Bethel ddangosodd i'r rhedwyr iau sut mae rhedeg, gan orffen o fewn yr hanner cant cyntaf a dod yn gyntaf dros 50 oed mewn amser o 1 awr 25 munud a 27 eiliad. Ond doedd

Ashley Wager, Brynrefail, fawr o'i ôl chwaith, gan ddod yn drydydd dros 50 oed mewn 1:30:29; a hynny ar ôl rhedeg Ras Penmaenmawr y diwrnod cynt!

Eraill o'r fro fu'n cystadlu oedd Rhys ab Elwyn, Ysgol Gwaun Gynfi; Phil Lynes, Llanrug; Rhian a Dyfed Thomas, Llanrug; Huw Owen, Llanrug; Irfon Jones, Llanrug; Neil Garton Jones, Tan y Coed; Gwion a Rhodri Llwyd, Llanrug a Carwyn Morris, Bethel. Ac roedd amryw o'r rhain yn trafod eu sialens nesaf fel roeddent yn croesi'r llinell derfyn...



Enillydd lleol i Farathon Eryri

Am y tro cyntaf ers 1991 crys gwyrdd a choch Rhedwyr Eryri oedd y cyntaf ar draws y llinell derfyn yn Llanberis ar ddiwedd chwe milltir ar hugain o redeg cyffrous mewn tywydd erchyll.

Rob Samuel, yn wreiddiol o'r Waun, ond wedi treulio nifer o flynyddoedd yn fyfyrwr a swyddog ym Mhrifysgol Bangor a bellach yn gweithio i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghrafnant, enillodd y frwydr. A brwydr oedd hi hefyd: yn erbyn hydref-wynt mileinig oedd yn chwipio cenlli o law gyrru o amgylch y rhedwyr ar eu taith o amgylch yr Wyddfa. A brwydr hefyd rhwng grŵp bychan o redwyr a gyrchodd y blaen yn fuan yn y ras. Pedwarawd galluog. Rob Samuel eisoes wedi cynrychioli Prydain mewn rasys mynydd; Richie Gardiner (enillydd y llynedd) ac Andrew Davies yn gyntaf ac ail ym mhencampwriaethau'r Gymanwlad ychydig dros fis yn ôl mewn ras 55km ar dwyni tywod Niwbwrch a thraethau Llanddwyn, a Murray Strain a ddaeth yn ail yn Ras yr Wyddfa

eleni, yn rhedeg ei farathon gyntaf.

Rhwng Betws Garmon a'r Waunfawr y dechreuodd y pedwar wahanu, gyda Rob Samuel yn torri'n rhydd, ac yn ennill mewn 2 awr 36 munud a 45 eiliad. Er i Murray Strain wneud ymdrech lew a dal Richie Gardiner ym Mwllch y Groes, bu'n rhaid iddo fodloni ar ail arall eleni yn Llanberis, gyda Andrew Davies yn bedwerydd.

Yn chweched yn y ras roedd Mathew Roberts o Lanberis mewn 2 awr 44 munud a 7 eiliad, ac yn ddeuddegfed, Iain Ridgway o Nant Peris mewn 2 awr 51 munud a 49 eiliad; y ddau o Redwyr Eryri.

Ond cafodd nifer o redwyr lleol eraill ras eithriadol o dda er gwaethaf y tywydd, gyda Noel Crane, Llanberis (3:19:00), Arwel Lewis, Bethel (3:19:31) yn ail dros 50 oed, Paul Barbier, Llanberis (3:26:13), Dyfed Thomas, Llanrug (3:28:29), a Philip Lynes, Llanrug (3:32:42) i gyd yn gorffen ymhlith y 200 rhedwr cyntaf allan o'r mil a hanner a gychwynnodd y ras. Llongyfarchiadau hefyd i bawb

arall o'r fro a gwblhaodd un o'r rasys marathon caletaf yn Ewrop.

UNI'W WYLIO



Cefais orig braf yr wythnos diwethaf yn Ysgol Bethel yn sgwrsio gyda un o sêr byd chwaraeon y fro. Hogyn hwyliog iawn yw Cai Llwyd Jones, 9 oed o Riwlus. Ond dan yr wyneb mae elfen gystadleuol iawn yn ei ddewis gamp, sef tenis.

Ar ddiwedd yr wythnos roedd Cai a'r teulu yn teithio draw i Nottingham ar gyfer Pencampwriaethau Oedrannol Prydain. Roedd 16

wedi eu gwahodd i'r diwrnod mawr. Cai yw pencampwr cyfredol gogledd Cymru. Fel pob un sy'n cyrraedd y lefel yma mae'n golygu cryn ymroddiad gan yr unigolyn a'i rieni. Rhaid ymarfer dair gwaith yr wythnos, draw ym Mae Colwyn a Wrecsam. Yna ar benwythnosau rhaid teithio eto ar gyfer cystadlaethau draw yng ngogledd-orllewin Lloegr. Ar ben hyn mae'r gwahanol sesiynau hyfforddi i'r

garfan genedlaethol Gymreig. Tipyn o ymdrech, a thipyn o ymroddiad.

Gobeithio y bydd y daith yn llwyddiannus, oherwydd fe gychwynnodd y daith i Cai fel plentyn 4 oed yng Nghanolfan Denis Caernarfon. Yna nodwyd y bartneriaeth llygaid/llaw nodedig sydd mor hanfodol yn y gamp sy'n ddibynnol ar ymateb sydyn, dehongli sefyllfa a'r gallu i wneud penderfyniad ar amrantiad.

Y mae chwaraeon yn y llinach. Cofiaf Gareth, ei dad, yn asgellwr talentog i dimau pêl-droed a rygbi yr Ysgol. Roedd Iwan Jones, ei ewythr, yn flaenasgellwr dawnus iawn am sawl tymor i dimau Llanelli a Chymru 'A'. O'r sgwrs gefais i â'r bachgen hwyliog, hyderus mae gennyf deimlad y byddaf yn ysgrifennu mwy am y bachgen diymhongar yma yn y dyfodol.

